Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Rhaglen Sylfaen Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2

Fersiwn 1: Medi 2023

Tabl Cynnwys

1. Gwybodaeth am y lleoliad
2. Gwybodaeth gyffredinol am Ysbyty Glangwili
3. Swyddi F1 yn Ysbyty Glangwili
4. Swyddi F2 yn Ysbyty Glangwili
5. Manylion Lleoliadau Meddygon F1 yn Ysbyty Glangwili
6. Manylion Lleoliadau Meddygon F2 yn Ysbyty Glangwili

Croeso i Orllewin Cymru

Mae Gorllewin Cymru yn lle hyfryd i fyw, ac mae pob un o brif safleoedd Bwrdd Iechyd Hywel Dda mewn ardaloedd arfordirol gyda thraethau hardd a mynyddoedd ysblennydd ar garreg y drws. Mae gweithgareddau hamdden cyffrous fel syrffio, beicio mynydd, pysgota, hwylio, heicio a cherdded i gyd ar gael yn yr ardaloedd hyn, sy'n enwog am eu harddwch naturiol eithriadol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwasanaethu poblogaeth o tua 385,615 o bobl ledled Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

Gweithio i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Mae gan y Bwrdd Iechyd gysylltiadau â Phrifysgolion Aberystwyth, Abertawe, Caerdydd a Bangor, yn ogystal â chael perthynas waith dda gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae llawer o'n Hymgynghorwyr yn Ddarlithwyr Cyswllt, Uwch-ddarlithwyr ac yn Athrawon Cyswllt.

Gwasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgell

Mae Gwasanaethau Gwybodaeth a Llyfrgell Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cynnig ystod eang o adnoddau, print ac ar-lein, a gwasanaethau i holl staff, hyfforddeion a myfyrwyr ar leoliad y Bwrdd Iechyd.

Rheolir pob llyfrgell gan lyfrgellydd cymwys ac mae ein staff cyfeillgar a gwybodus yma i gefnogi eich anghenion gwybodaeth at ddiben gofal cleifion, addysg, gwella ansawdd ac ymchwil.

GWASANAETH LLYFRGELL
GIG CYMRU | NHS WALES
LIBRARY SERVICE

Caerfyrddin

Mae Caerfyrddin yn dref ddeniadol ar lannau Afon Tywi gyda thirweddau a golygfeydd godidog, sy'n swatio rhwng Sir Benfro a Phenrhyn Gŵyr. Archwiliwch arfordir hyfryd Bae Caerfyrddin i'r gorllewin, Coedwig Brechfa yn y canol, a mynyddoedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r dwyrain. Dewch i ddarganfod trefi hanesyddol fel Talacharn, a ysbrydolodd waith y bardd o Gymru, Dylan Thomas, ac archwiliwch Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru.

Ysbyty Glangwili

Ysbyty Cyffredinol Glangwili, yng Nghaerfyrddin, yw'r mwyaf o'r pedwar prif ysbyty ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'r ysbyty'n darparu meddygaeth frys, llawfeddygaeth gyffredinol, gwasanaethau trawma ac orthopaedeg a gwasanaethau meddygol cyffredinol. Mae gwasanaethau diagnostig a therapïau, radioleg, bydwreigiaeth, menywod a phlant ar gael yma hefyd.

Mae ysbyty Glangwili hefyd yn darparu:

- Uned Argyfwng bwrpasol ar gyfer derbyniadau brys.
- Uned Penderfyniadau Clinigol sy'n darparu gofal o'r safon uchaf i gleifion sy'n ddifrifol wael.
- Uned Gofal Critigol fawr a modern i oedolion.
- Uned Strôc gyda thîm strôc pwrpasol.
- Gwasanaethau cardiaidd craidd ar gyfer poblogaeth Sir Gaerfyrddin.
- Gwasanaethau gwaedu gastroberfeddol ar gyfer ardal ddeheuol y Bwrdd Iechyd.

Cysylltiadau Trafnidiaeth

Mae gan Gaerfyrddin gysylltiadau trafnidiaeth rhagorol ac mae'r dref yn agos at yr M4. Mae cysylltiadau ffordd a rheilffordd da i Sir Benfro yn y gorllewin a Chaerdydd a Lloegr i'r dwyrain. Ar gyfer swyddi LIFT, mae elfen lle bydd angen i chi fynd i glinigau a lleoliadau meddygon teulu mewn ardaloedd gwledig. Felly, mae'n bosibl y bydd trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig. Mae cael mynediad at gerbyd yn fantais.

Llety a ddarperir gan yr ysbyty

Mae pob Meddyg Sylfaen yng Nghymru yn cael cynnig llety ysbyty am ddim drwy gydol eu Blwyddyn Sylfaen 1 (F1).

Os na fydd llety ar gael, byddwch yn gallu hawlio treuliau ar gyfer y cyfnod o dan sylw yn lle hynny.

Isod, rydym wedi amlinellu'n fyr y llety sydd ar gael yn y Bwrdd Iechyd hwn:

- Mae llety meddygon F1 wedi'i leoli'n gyfleus ar safle Ysbyty Glangwili, yn agos at y Ganolfan Addysg Feddygol.
- Mae gan bob meddyg sylfaen fynediad at ystafell gyffredin y meddygon, sydd â theledu Sky, Wi-Fi, bwrdd pŵl a chegin.
- Darperir ystafelloedd sengl, gyda rhai fflatiau ar gyfer cyplau priod a allai fod ar gael i'w rhentu, yn amodol ar argaeledd.
- Mae maes parcio i breswylwyr ar safle'r ysbyty.
- Y Swyddog Llety yw Anne Rice (anne.rice@wales.nhs.uk).

Cyfnodau Cylchdro – Y Brif Restr

Mis Awst 2022 i fis Gorffennaf 2023

Mae'r rhaglenni rydym ni'n eu cynnig yn cael eu crynhoi isod ac mae'r manylion perthnasol ar y tudalennau canlynol. Mae tair swydd wag ar gyfer pob rhaglen (A, B a C), sy'n creu'r lleoliadau a restrir, pob un mewn trefn wahanol.

Swyddi F1 yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili

(Mae'r swyddi yn Ysbyty'r Tywysog Philip wedi'u marcio â *)

Rhaglen	Lleoliad 1	Lleoliad 2	Lleoliad 3
FP15A	Meddygaeth Gyffredinol / Gastroenteroleg*	Meddygaeth Frys	Rhiwmatoleg*
FP15B	Meddygaeth Frys	Rhiwmatoleg*	Meddygaeth Gyffredinol / Gastroenteroleg*
FP15C	Rhiwmatoleg*	Meddygaeth Gyffredinol / Gastroenteroleg*	Meddygaeth Frys
FP18A	Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed*	Haematoleg	Meddygaeth Frys
FP18B	Meddygaeth Frys	Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed*	Haematoleg
FP18C	Haematoleg	Meddygaeth Frys	Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed*
FP19A	Meddygaeth Gyffredinol / Diabetes	Llawdriniaeth Gyffredinol	Meddygaeth Gyffredinol / Cardioleg
FP19B	Meddygaeth Gyffredinol / Cardioleg	Meddygaeth Gyffredinol / Diabetes	Llawdriniaeth Gyffredinol
FP19C	Llawdriniaeth Gyffredinol	Meddygaeth Gyffredinol / Cardioleg	Meddygaeth Gyffredinol / Diabetes
FP20A	Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed	Llawdriniaeth Gyffredinol	Meddygaeth Frys
FP20B	Meddygaeth Frys	Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed	Llawdriniaeth Gyffredinol
FP20C	Llawdriniaeth Gyffredinol	Meddygaeth Frys	Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed
FP21A	Meddygaeth Gyffredinol / Anadlol	Llawdriniaeth Gyffredinol	Anestheteg
FP20B	Anestheteg	Meddygaeth Gyffredinol / Anadlol	Llawdriniaeth Gyffredinol
FP20C	Llawdriniaeth Gyffredinol	Anestheteg	Meddygaeth Gyffredinol / Anadlol
FP22A	Meddygaeth Gyffredinol / Gastroenteroleg	Llawdriniaeth Gyffredinol	Clust, Trwyn a Gwddf
FP22B	Clust, Trwyn a Gwddf	Meddygaeth Gyffredinol / Gastroenteroleg	Llawdriniaeth Gyffredinol
FP22C	Llawdriniaeth Gyffredinol	Clust, Trwyn a Gwddf	Meddygaeth Gyffredinol / Gastroenteroleg

FP23A	Meddygaeth Gyffredinol / Anadlol*	Llawdriniaeth Gyffredinol	Gofal Lliniarol / Haematoleg*
FP23B	Gofal Lliniarol / Haematoleg*	Meddygaeth Gyffredinol / Anadlol*	Llawdriniaeth Gyffredinol
FP23C	Llawdriniaeth Gyffredinol	Gofal Lliniarol / Haematoleg*	Meddygaeth Gyffredinol / Anadlol*
FP24A	Anestheteg	Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed	Obstetreg a Gynaecoleg
FP24B	Obstetreg a Gynaecoleg	Anestheteg	Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed
FP24C	Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed	Obstetreg a Gynaecoleg	Anestheteg
FP06A	Wroleg	Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed*	Meddygaeth Gyffredinol / Gastroenteroleg
FP06B	Meddygaeth Gyffredinol / Gastroenteroleg	Wroleg	Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed*
FP06C	Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed*	Meddygaeth Gyffredinol / Gastroenteroleg	Wroleg
LIFT FP115A	Wroleg	Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlu yn y Gymuned	Meddygaeth Gyffredinol / Anadlol
LIFT FP115B	Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlu yn y Gymuned	Meddygaeth Gyffredinol / Anadlol	Wroleg
LIFT FP115C	Meddygaeth Gyffredinol / Anadlol	Wroleg	Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlu yn y Gymuned

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Swyddi F2 yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili (wedi'u hamlygu mewn glas)

(Mae'r swyddi yn Ysbyty'r Tywysog Philip wedi'u marcio â *)

(Mae'r swyddi yn Hafan Derwen wedi'u marcio â **)

Rhaglen	Lleoliad 1	Lleoliad 2	Lleoliad 3
FP22A	Meddygaeth Gyffredinol / Anadlol*	Ymarfer Cyffredinol	Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed*
FP22B	Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed*	Meddygaeth Gyffredinol / Anadlol*	Ymarfer Cyffredinol
FP22C	Ymarfer Cyffredinol	Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed*	Meddygaeth Gyffredinol / Anadlol*
FP17A	Meddygaeth Frys	Llawdriniaeth Gyffredinol	Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed
FP17B	Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed	Meddygaeth Frys	Llawdriniaeth Gyffredinol
FP17C	Llawdriniaeth Gyffredinol	Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed	Meddygaeth Frys
FP123A	Meddygaeth Gyffredinol / Cardioleg*	Clust, Trwyn a Gwddf	Ymarfer Cyffredinol
FP123B	Ymarfer Cyffredinol	Meddygaeth Gyffredinol / Cardioleg*	Clust, Trwyn a Gwddf
FP123C	Clust, Trwyn a Gwddf	Ymarfer Cyffredinol	Meddygaeth Gyffredinol / Cardioleg*
FP18A	Meddygaeth Gyffredinol Gastroenteroleg*	Obstetreg a Gynaecoleg	Clust, Trwyn a Gwddf
FP18B	Clust, Trwyn a Gwddf	Meddygaeth Gyffredinol Gastroenteroleg*	Obstetreg a Gynaecoleg
FP18C	Obstetreg a Gynaecoleg	Clust, Trwyn a Gwddf	Meddygaeth Gyffredinol Gastroenteroleg*
FP21A	Meddygaeth Gyffredinol / Diabetes*	Meddygaeth Gyffredinol Gofal yr Henoed	Meddygaeth Frys
FP21B	Meddygaeth Frys	Meddygaeth Gyffredinol / Diabetes*	Meddygaeth Gyffredinol Gofal yr Henoed
FP21C	Meddygaeth Gyffredinol Gofal yr Henoed	Meddygaeth Frys	Meddygaeth Gyffredinol / Diabetes*
FP24A	Clust, Trwyn a Gwddf	Meddygaeth Gyffredinol / Anadlol	Meddygaeth Frys
FP24B	Meddygaeth Frys	Clust, Trwyn a Gwddf	Meddygaeth Gyffredinol / Anadlol
FP24C	Meddygaeth Gyffredinol / Anadlol	Meddygaeth Frys	Clust, Trwyn a Gwddf
FP115A	Meddygaeth Gyffredinol Gastroenteroleg	Haematoleg	Pediatreg

FP115B	Pediatreg	Meddygaeth Gyffredinol Gastroenteroleg	Haematoleg
FP115C	Haematoleg	Pediatreg	Meddygaeth Gyffredinol Gastroenteroleg
FP132A	Gofal Lliniarol / Haematoleg*	Trawma ac Orthopedeg	Meddygaeth Frys
FP132B	Meddygaeth Frys	Gofal Lliniarol / Haematoleg*	Trawma ac Orthopedeg
FP132C	Trawma ac Orthopedeg	Meddygaeth Frys	Gofal Lliniarol / Haematoleg*
FP06A	Trawma ac Orthopedeg	Meddygaeth Gyffredinol / Diabetes	Meddygaeth Frys
FP06B	Meddygaeth Frys	Trawma ac Orthopedeg	Meddygaeth Gyffredinol / Diabetes
FP06C	Meddygaeth Gyffredinol / Diabetes	Meddygaeth Frys	Trawma ac Orthopedeg
FP15A	Meddygaeth Gyffredinol / Cardioleg	Wroleg	Ymarfer Cyffredinol
FP15B	Ymarfer Cyffredinol	Meddygaeth Gyffredinol / Cardioleg	Wroleg
FP15C	Wroleg	Ymarfer Cyffredinol	Meddygaeth Gyffredinol / Cardioleg
FP19A	Radioleg / Meddygaeth Gofal Dwys	Seiciatreg Gyffredinol**	Wroleg
FP19B	Seiciatreg Gyffredinol**	Wroleg	Radioleg / Meddygaeth Gofal Dwys
FP19C	Wroleg	Radioleg / Meddygaeth Gofal Dwys	Seiciatreg Gyffredinol**
FP016A	Pediatreg	Ymarfer Cyffredinol	Uned Penderfyniadau Clinigol/Meddygaeth Fewnol Acíwt
FP016B	Uned Penderfyniadau Clinigol/Meddygaeth Fewnol Acíwt	Pediatreg	Ymarfer Cyffredinol
FP016C	Ymarfer Cyffredinol	Uned Penderfyniadau Clinigol/Meddygaeth Fewnol Acíwt	Pediatreg
FP020A	Wroleg	Cardioleg	Seiciatreg Gyffredinol**
FP020B	Cardioleg	Seiciatreg Gyffredinol**	Wroleg
FP020C	Seiciatreg Gyffredinol**	Wroleg	Cardioleg

Gwybodaeth Bwysig

Bwriedir i'r lleoliadau a'r disgrifiadau swydd a ddarperir fod yn ganllaw i ymgeiswyr yn unig. Nid yw hyn yn rhan o gontract cyflogaeth ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cadw'r hawl i newid unrhyw leoliadau yn unol â gofynion.

Gall rhaglenni newid ar fyr rybudd a gellir newid y bandio. Ewch i wefan Ysgol Sefydledig Cymru i gael cadarnhad o unrhyw newidiadau i'n Rhaglenni.

Lleolir y swyddi canlynol yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin. Mae rhai cyfnodau cylchdro yn Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli, fel y nodir.

Manylion Lleoliadau Meddygon F1

Meddygaeth Gyffredinol / Gastroenteroleg	**Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli**
Rhaglenni:	FP15A
Band 2B 50%	Rota 1:26
Bydd yr hyfforddai'n cael cyfle i ddod i gysylltiad ag ystod eang o unigolion sydd â chyflyrau sy'n gysylltiedig â lwmina a hepatoleg, ac sy'n cael eu gweld fel cleifion mewnol yn Ysbyty'r Tywysog Philip, a chyfrannu'n weithredol at eu rheoli, gan gynnwys clefyd llidiol cymhleth y coluddyn, clefyd yr afu, malaenedd Gastroberfeddol a phatholegau uwch sy'n gysylltiedig â maeth. Bydd yr hyfforddai'n elwa o rowndiau ward rheolaidd o dan arweiniad meddyg ymgynghorol ac addysgu ar erchwyn y gwely a fydd yn meithrin gwybodaeth a rhesymu clinigol. Anogir pob aelod o'r tîm i chwilio am gyfleoedd addysgol, yn enwedig mynd i weld cleifion allanol i arsylwi a gweld cleifion eu hunain. Mae clinigau arbenigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn Ysbyty'r Tywysog Philip, gan gynnwys IBD cymhleth, clefyd yr afu sy'n cynnwys hepatitis feirysol, a gwiriadau ôl-drawsblaniadau afu, ochr yn ochr ag atgyfeiriadau gastroenteroleg cyffredinol. Bydd cyfle hefyd i fynd i'r adran endosgopi i arsylwi endosgopi gastroberfeddol uwch ac is, a fydd yn cynnwys therapiwteg. Mae disgwyl i bob hyfforddai fod yn gymwys i gyflawni parasentesis abdomenol erbyn iddynt gwblhau'r cyfnod cyswllt. Ochr yn ochr â'u dyletswyddau ward arferol, bydd y meddyg iau hefyd yn rhan o'r rota meddygol cyffredinol ac yn cael y cyfle i weld cleifion meddygol sy'n ddifrifol wael yn cael eu derbyn i'r uned asesu meddygol acíwt tra'n rhan o'r Tîm Achosion Brys Meddygol ac ymateb i alwadau thrombolysis strôc acíwt.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Dyddiol** Rowndiau Ward o dan arweiniad Meddyg Ymgynghorol **Wythnosol** Addysgu F1 Cyfarfod Meddygol **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Ian Rees

Meddygaeth Frys	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP15B
Band 1A-50%	Rota 1:3

Asesu a rheoli mân gyflwyniadau a chyflwyniadau difrifol i'r Uned Achosion Brys o dan Oruchwyliaeth Glinigol ar y safle. Bydd hyfforddeion yn cyfrannu at archwiliadau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys (RCEM), gofal plant ac Asesiadau Gwybyddol ymhlith yr Henoed.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F1 Addysgu yn yr Adran Achosion Brys – 3 awr Tair awr o addysgu rhydd o fipian bob prynhawn dydd Mercher rhwng 2pm a 5pm, sydd fel arfer yn cynnwys tair sesiwn awr o hyd sy'n cwmpasu'r cwricwlwm Meddygaeth Frys. **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Nigel Waghorne

Rhiwmatoleg	**Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli**
Rhaglenni:	FP15C
Band 2B-50%	Rota 1:26
Bydd y swydd hon yn cyflwyno'r meddyg i'r ystod lawn o anhwylderau rhiwmatolegol trwy fynychu 4 clinig cleifion allanol yr wythnos, yr uned ddydd rhiwmatoleg a gweld atgyfeiriadau ward gydag un o'r 3 meddyg ymgynghorol rhiwmatoleg. Bydd cyfle i ddatblygu sgiliau gweithdrefnol penodol i arbenigedd fel pigiadau therapiwtig mewn-gyhyrol, mewn-arwynebol, a phigiadau meinwe meddal yn dibynnu ar ddewis y meddyg. Cyfrifoldeb y meddyg fydd gwirio canlyniadau gwaed o glinigau bob dydd a gellir trafod unrhyw ganlyniadau annormal ac annisgwyl gyda'r clinigydd a welodd y claf ddiwethaf yn y clinig. Bydd amser i ymgyfarwyddo â chwnsela a monitro cyffuriau, ymchwiliadau cyn-sgrinio ar gyfer cyffuriau gwrth-rhiwmatig sy'n addasu clefydau (DMARDs), therapïau biolegol a datblygu gwybodaeth am reoli clefydau cronig. Gellir datblygu sgiliau TG drwy ddefnyddio ein cofnod electronig o gleifion, a gwella sgiliau cyfathrebu wrth weld cleifion yn y clinig ac yna chyflwyno canfyddiadau i'r ymgynghorydd a fydd wedyn yn gweld y claf gyda'r meddyg. Bydd amser yn ystod yr wythnos i gynnal gweithgaredd gwella ansawdd, neu i wneud astudiaethau achos. Mae ymrwymiad i rota meddygol ar alwad ac fe anogir ymgysylltiad gyda sesiynau addysgu meddygon iau wythnosol, clwb cyfnodolion a rowndiau ward mawr.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Clwb Cyfnodolion Addysgu F1 Rowndiau Ward Mawr Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty **bob deufis**
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Jayne Evans

Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed	**Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli**
Rhaglenni:	FP18A
Band 2B 50%	Rota 1:26
Yn bennaf, bydd hyfforddeion yn trin derbyniadau meddygol brys heb eu dewis (dim gwaedu sylweddol o'r llwybr gastroberfeddol neu broblemau meddygol yn ystod beichiogrwydd), ac yn darparu gofal parhaus i'r rhan fwyaf o'r cleifion sy'n cael eu gweld.	

Gofal parhaus dyddiol ar gyfer cleifion meddygol acíwt a ward adsefydlu ar ôl strôc. Gofal 1:3 cleifion strôc brys yn y ward adsefydlu (ar rota). Bydd hyfforddeion yn datblygu'r sgiliau sylfaenol angenrheidiol, gan gynnwys cofnodi hanes, archwilio, gweithdrefnau ymarferol ar erchwyn y gwely, rheoli cymhlethdodau cysylltiedig â strôc, a diddordeb arbennig mewn anhwylderau symud. Dyma swydd brysur DGH GIM/COTE Sylfaen sy'n hwyluso datblygiad sgiliau sylfaenol angenrheidiol, gan gynnwys cofnodi hanes, archwilio, gweithdrefnau ymarferol ar erchwyn y gwely, rheoli cymhlethdodau cysylltiedig â strôc, a diddordeb arbennig mewn anhwylderau symud.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Dyddiol** Rowndiau Ward o dan arweiniad Meddygon Ymgynghorol / Rowndiau Ward o dan arweiniad Meddygon Iau **Wythnosol** Cyfarfod Meddygol Addysgu FY1 Rowndiau Ward Mawr Addysgu Adrannol **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Granville Morris

Meddygaeth Frys	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP18B
Band 1A - 50%	Rota 1:3
Asesu a rheoli mân gyflwyniadau a chyflwyniadau difrifol i'r Uned Achosion Brys o dan Oruchwyliaeth Glinigol ar y safle. Bydd hyfforddeion yn cyfrannu at archwiliadau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys (RCEM), gofal plant ac Asesiadau Gwybyddol ymhlith yr Henoed.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F1 Addysgu yn yr Adran Achosion Brys **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd Addysgu efelychol
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Nigel Waghorne

Haematoleg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP18C
Band 1B 40%	Rota 1:22
Mae'r meddyg F1 yn rhan o dîm sy'n cynnwys dau haematolegydd ymgynghorol, arbenigwr cyswllt, meddyg graddfa staff, meddyg F2 a nyrs arbenigol haematoleg. Cynhelir rowndiau ward o dan arweiniad meddyg ymgynghorol bob dydd Llun a dydd Iau. Mae'r tîm hefyd yn gyfrifol am gleifion gofal dydd sy'n ymweld â'r ysbyty ar gyfer cemotherapi, gwaed a thrallwysiadau cynnyrch gwaed yn yr uned cemotherapi a'r ysbyty dydd. Mae'r gweithdrefnau y gellir eu dysgu, ar wahân i'r cymwyseddau craidd, yn cynnwys biopsi mêr esgyrn, tynnu cathetr canolog wedi'i fewnosod yn	

ymylol (PICC) a llinell Hickman. Mae cyfle hefyd i gael profiad o wasanaethau labordy, gan gynnwys adrodd ar gaenennau gwaed a mêr esgyrn.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Cyfarfod meddygol Addysgu F1 Addysgu Haematoleg **Bob 2 fis** Cyfarfodydd archwilio Mae prosiectau archwilio a gwella ansawdd yn cael eu hannog a'u cefnogi'n gryf yn y swydd hon.
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Saran Nicholas

Meddygaeth Gyffredinol / Diabetes ac Endocrinoleg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP19A
Band 1B - 40%	Ar alwad 1:11

Mae'r Adran yn darparu cyfleoedd hyfforddi rhagorol mewn Meddygaeth Gyffredinol yn ogystal â Diabetes ac Endocrinoleg.
Mae'r Tîm yn cynnwys 3 Meddyg Ymgynghorol, 1 SpR, 1 IMT, 1 F2, 1F1, 1 Cymrawd Clinigol a 4 Nyrs Arbenigol Diabetes.
Mae'r dyletswyddau'n cynnwys rheoli cleifion mewnol, bod yn bresennol ar rowndiau ward o dan arweiniad Meddygon Ymgynghorol (2-3 yr wythnos), cwblhau crynodebau rhyddhau, addysgu myfyrwyr meddygol yn ôl cyfarwyddyd, mynychu cyfarfodydd clinigol a chlinigau cleifion allanol. Cynhelir cyfarfodydd clinigol mewn Diabetes ac Endocrinoleg ac mewn Meddygaeth Gyffredinol. Disgwylir i feddygon sylfaen gyflwyno achosion clinigol a chyfrannu at drafodaeth y clwb cyfnodolion. Anogir holl aelodau'r tîm i ymgymryd â Phrosiect Gwella Ansawdd neu archwiliad yn ystod yr aseiniad.
Bydd y meddygon F1 yn cael eu hyfforddi mewn rheoli cyflwyniadau acíwt mewn Diabetes ac Endocrinoleg yn ystod eu profiad ar y ward. Bydd profiad o reoli diabetes ac anhwylderau endocrin yn cael ei ennill mewn clinigau cleifion allanol. Bydd profiad o reoli cleifion sy'n ddifrifol wael yn cael ei ennill wrth fynychu rowndiau ward ôl-dderbyn dyddiol o dan arweiniad meddygon ymgynghorol ar y wardiau derbyn.
Mae'r dyletswyddau'n cynnwys:

- clercio a chychwyn y gwaith o ymchwilio a rheoli derbyniadau acíwt,
- darparu gwasanaeth meddygol i'r wardiau, i sicrhau bod y cleifion mewnol yn cael eu hadolygu bob dydd,
- cwblhau llythyr rhyddhau electronig cynhwysfawr,
- mynychu rowndiau ward o dan arweiniad Meddygon Ymgynghorol / uwch,
- mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd adrannol a chyflenwi mewn timau meddygol eraill os oes angen.

Disgwylir i feddygon F1 fod yn hyblyg o ran eu trefniadau gweithio.

Bydd meddygon F1 yn helpu i reoli cleifion mewnol ac yn cysylltu â staff uwch. Mae rownd ward ddyddiol y mae angen i feddygon F1 ei mynychu a rhestr fanwl o'r cleifion mewnol sydd angen ei pharatoi cyn y rownd ward. Byddwch yn dod i gysylltiad ag amrywiaeth o glinigau cleifion allanol ac, os oes gennych ddiddordeb, bydd cyfle i chi weithio gydag aelodau amlddisgyblaethol o'r tîm Diabetes ac Endocrinoleg, gan gynnwys nyrsys arbenigol, dietegwyr a phodiatregwyr.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Dyddiol** Rowndiau Ward - Rownd Ward o dan arweiniad Meddyg Ymgynghorol ddwywaith yr wythnos **Wythnosol** Addysgu'r Cwricwlwm Craidd F1 Cyfarfod Meddygol
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Stamiatos Zouras

Meddygaeth Gyffredinol / Cardioleg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP19B
Band 1B - 40%	Rota 1:11
Mae'r meddyg F1 yn rhan annatod o'r tîm Cardioleg yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili, gan weithio gyda meddyg F2, Cymrawd Clinigol/IMT/ANP (2 swydd), SPR a meddyg arbenigol. Mae'r tîm yn cael ei arwain gan 4 cardiolegydd sy'n rhoi mewnbwn dyddiol i'r wardiau a'r CCU. Mae'r tîm yn gofalu am 6 chlaf yn CCU, 6 yn yr uned cardiaidd camu i lawr a 10 ar Ward Tywi (gyda chleifion allanol achlysurol). Mae'r meddygon iau yn cael cyfle i dreulio amser yn ennill profiad o ddehongli ECG, ecocardiograffeg sylfaenol, rheoli sylfaenol ac angiograffeg. Mae mwy o feddygon uwch wedi cael eu hyfforddi mewn rhai o'r technegau uwch ac anogir y meddygon iau i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r rhain. Mae meddygon F1 yn cymryd rhan mewn rota ar alwad 1:11, lle byddant ar alwad gyda naill ai meddyg F2/Cymrawd Clinigol/IMT neu feddyg gradd canol. Mae meddyg 'cyfnos' yn helpu yn ystod y nos. Yn ogystal, bydd nyrs nos wrth law i ddarparu cymorth yn ystod y nos. Mae ymgynghorydd yn bresennol rhwng 8am ac 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac am lawer o'r penwythnos. Mae ymgynghorydd ar alwad o'i gartref bob amser, ac mae ar gael 24/7. Mae'r meddygon F1 yn cael eu cefnogi i fynychu digwyddiadau addysgol yn yr adran ôl-raddedig ac yn cael cyngor a chefnogaeth gyrfaoedd gan yr ymgynghorwyr. Maent hefyd yn cael eu cefnogi i gyflawni gofynion y cwricwlwm.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F1 Cyfarfod Meddygol gyda chinio Rowndiau ward
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Eiry Edmunds

Llawdriniaeth Gyffredinol / y Llwybr Gastroberfeddol Uchaf	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**

Rhaglenni:	FP19C
Band **2B - 50%	Rota 1:11
Rheolaeth ddewisol ac argyfwng o gleifion llawfeddygol (cyffredinol / y llwybr gastroberfeddol uchaf / y colon a'r rhefr) mewn ysbyty cyffredinol. Pwyslais penodol ar lawdriniaeth mynediad minimol ac ymyrraeth endosgopig. Rheoli cleifion llawfeddygol sy'n ddifrifol wael. Mae'r swydd hon yn cynnig profiad cyflawn o lawfeddygaeth gyffredinol a llawfeddygaeth y colon a'r rhefr ar draws holl ystod yr arbenigedd. Mae'r swydd hefyd yn darparu profiad o asesu a rheoli cleifion llawfeddygol brys a chleifion sy'n ddifrifol wael. O dan oruchwyliaeth glinigol ac addysgol ymgynghorwyr profiadol, bydd y meddyg yn cael cyfleoedd i gyflawni cymwyseddau priodol ac yn cael ei annog i gymryd rhan mewn Prosiectau Gwella Gwasanaeth. Bydd deiliad y swydd hon yn un o 5 meddyg FY1 a gefnogir gan ANPs, F2/CTs a Chofrestryddion o dan oruchwyliaeth agos Ymgynghorwyr. Mae'r patrwm gwaith yn cynnwys cyfuniad o ddiwrnodau arferol, sifftiau ar alw dydd a nos, ar rota sy'n cydymffurfio'n llawn â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd. *Oherwydd llwybrau Covid, efallai y bydd gofyniad parhaus i feddygon F1 sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili ymgymryd â dyletswyddau yn Ysbyty'r Tywysog Philip gan mai dyma'r safle dewisol yn Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn hefyd yn golygu y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd addysgol a hyfforddiant.*	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu llawfeddygol amser cinio Cyfarfod Tîm Amlddisgyblaethol, boreau Mercher a phrynhawniau Gwener Rhaglen addysgu F1 orfodol Addysgu adrannol – bydd y deiliad yn cael pynciau i'w paratoi a'u cyflwyno yn y cyfarfodydd hyn **Misol** Morbidrwydd a Marwoldeb Adrannol
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr Ken Harries

Arbenigol/Gofal yr Henoed/Strôc/Clefyd Parkinson/Adsefydlu	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP20A
Band **1B - 40%	Rota 1:22
Mae'r lleoliad hwn yn rhoi cyfle i'r hyfforddai ddysgu sut i reoli cleifion sydd â strôc acíwt a'u hadsefydlu, rheoli clefyd Parkinson, dysgu egwyddorion adsefydlu, a datblygu profiad o reoli cleifion sy'n ddifrifol wael sy'n cyflwyno fel achosion brys. Mae'r adran yn annog gwaith tîm amlddisgyblaethol gweithredol, sy'n galluogi'r hyfforddai i ddatblygu perthnasoedd rhyngbersonol a bod yn aelod effeithiol o dîm. Bydd yr adran yn darparu cyfleoedd ar gyfer archwiliadau a gweithdrefnau diagnostig. Mae'r Tîm yn cynnwys 1 meddyg gradd canol, 3 meddyg gradd SHO, 1 meddyg FY1 ac 1 meddyg FY2. Mae prif gyfrifoldeb meddygon sylfaen yn y wardiau. Maen nhw'n mynd ar rowndiau ward ac yn cwblhau tasgau pan fydd y rownd ward yn gorffen. Maent hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Tîm	

Amlddisgyblaethol yn y wardiau strôc ac adsefydlu. Mae'r meddygon yn treulio 2 fis o'u cyfnodau cylchdro yn y ward strôc a 2 fis arall yn y ward adsefydlu.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F1 Mae'r addysgu'n digwydd yn ystod amser cinio ar ddydd Llun, dydd Mawrth (FY1) a dydd Gwener Mae sesiynau addysgu yn ychwanegol at yr addysgu yn ystod rowndiau ward a rowndiau ar ôl derbyn. Anogir meddygon iau i fynychu clinigau (PD, TIA, Meddygaeth Gyffredinol ac apwyntiadau dilynol ar ôl strôc) fel arsylwyr, sy'n darparu cyfleoedd dysgu pellach. Mae'r meddygon iau yn cael cyfle i arsylwi ac ymgymryd â gweithdrefnau arferol o dan oruchwyliaeth. Mae'r hyfforddai hefyd yn cael cyfle i gymryd rhan yng ngweithgareddau archwilio'r adran.
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Pagadala Sridhar

Meddygaeth Frys	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP20B
Band 1A - 50%	Rota 1:3
Asesu a rheoli mân gyflwyniadau a chyflwyniadau difrifol i'r Uned Achosion Brys o dan Oruchwyliaeth Glinigol ar y safle. Bydd hyfforddeion yn cymryd rhan mewn archwiliadau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys, gofal plant ac Asesiadau Gwybyddol ymhlith yr Henoed.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F1 Addysgu yn yr Adran Achosion Brys **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Nigel Waghorne

Llawdriniaeth Gyffredinol / y Llwybr Gastroberfeddol Uchaf	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP20C
Band **2B - 50%	Rota 1:11
Rheolaeth ddewisol ac argyfwng o gleifion llawfeddygol (cyffredinol / y llwybr gastroberfeddol uchaf / y colon a'r rhefr) mewn ysbyty cyffredinol nodweddiadol. Pwyslais penodol ar lawdriniaeth mynediad minimol ac ymyrraeth endosgopig. Rheoli cleifion llawfeddygol sy'n ddifrifol wael. Mae'r swydd hon yn cynnig profiad cyflawn o lawfeddygaeth gyffredinol a llawfeddygaeth y colon a'r rhefr ar draws holl ystod yr arbenigedd. Mae'r swydd hefyd yn darparu profiad o asesu a rheoli cleifion llawfeddygol brys a chleifion sy'n ddifrifol wael. O dan oruchwyliaeth glinigol ac addysgol ymgynghorwyr profiadol, bydd y meddyg yn cael cyfleoedd i gyflawni cymwyseddau priodol ac yn cael ei annog i gymryd rhan mewn Prosiectau Gwella Gwasanaeth.	

Bydd deiliad y swydd hon yn un o 5 meddyg FY1 a gefnogir gan ANPs, F2/CTs a Chofrestryddion o dan oruchwyliaeth agos Ymgynghorwyr. Mae'r patrwm gwaith yn cynnwys cyfuniad o ddiwrnodau arferol, sifftiau ar alw dydd a nos, ar rota sy'n cydymffurfio'n llawn â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd. *Oherwydd llwybrau Covid, efallai y bydd gofyniad parhaus i feddygon F1 sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili ymgymryd â dyletswyddau yn Ysbyty'r Tywysog Philip gan mai dyma'r safle dewisol yn Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn hefyd yn golygu y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd addysgol a hyfforddiant.*	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu llawfeddygol amser cinio Cyfarfod Tîm Amlddisgyblaethol, boreau Mercher a phrynhawniau Gwener Rhaglen addysgu F1 orfodol Addysgu adrannol – bydd y deiliad yn cael pynciau i'w paratoi a'u cyflwyno yn y cyfarfodydd hyn. **Misol** Morbidrwydd a Marwoldeb Adrannol
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr Brendon O'Riordan

Meddygaeth Gyffredinol / Anadlol	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP21A
Band 1B - 40%	Rota 1:22
Darpariaeth ddyddiol ar gyfer ward Anadlol 19 gwely, ynghyd â hyd at 5 o gleifion mewn ward allanol, gan weithio fel rhan o dîm o 1 F1, 1 F2, 1 IMT, 1 Cymrawd Clinigol, 1 Meddyg Arbenigol, 2 SR a 4 meddyg ymgynghorol. Mynychu a chyfrannu at ddwy rownd ward o dan arweiniad meddyg ymgynghorol bob wythnos ac un rownd ward o dan arweiniad meddyg gradd canol. Clercio ac asesu cleifion newydd sy'n dod i'r ward. Adolygiad dyddiol o gleifion ar y ward. Clercio a pharatoi achosion dydd sy'n mynychu'r ward ar gyfer clinig eisbilennol, biopsïau CT o dan arweiniad a thoracosgopi. Cymryd rhan yn y rhestr thoracosgopi wythnosol mewn cylchdro gyda staff iau eraill ar y tîm. Bod yn rhan o rota derbyniadau meddygol annewisol acíwt Ysbyty Cyffredinol Glangwili.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F1 Cyfarfod yr adran feddygol – darperir cinio Sesiwn addysgu Meddygaeth Anadlol – darperir cinio Dysgu wrth weithio gan feddygon gradd canol ac ymgynghorwyr, gyda chyfleoedd ar gyfer allsugno eisbilennol, USS a mewnosod draen rhyngasennol. Cyfleoedd i ddysgu gan nyrsys anadlol arbenigol, sbirometreg, NIV, techneg a dethol anadlydd. Cyfleoedd i brofi ystod eang o feddygaeth anadlol drwy ward ac Adran Cleifion Allanol, a sawl is-arbenigedd megis TB, canser yr

	ysgyfaint, asthma difrifol, clefyd eisbilennol, yn ogystal â dod i gysylltiad â broncosgopi, gan gynnwys uwchsain endobronciol a thoracosgopi. Mae Adsefydlu Ysgyfeiniol ar gael ar y safle hefyd.
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Gareth Collier

Anestheteg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP21B
Band 1B - 40%	1:11
Yn ystod y lleoliad 4 mis byddwch yn ennill profiad yn ystod y dydd mewn meddygaeth gofal dwys ac anesthesia, am yn ail gyda hyfforddai sylfaen arall. Tra byddwch yn yr uned gofal dwys, byddwch yn cael eich goruchwylio gan ymgynghorydd a 2 feddyg preswyl. Byddwch yn ennill profiad o ddelio â chleifion sy'n ddifrifol wael, o'u derbyn i'r ysbyty hyd at eu rhyddhau. Mae'r drefn ddyddiol yn dechrau gyda chymryd yr awenau oddi wrth y tîm nos am 8 y bore, adolygiadau cleifion, rownd ward o dan arweiniad meddyg ymgynghorol gyda chyflwyniad o'r canfyddiadau, ac yna tasgau ward. Anogir presenoldeb mewn galwadau brys ac wrth asesu derbyniadau newydd o dan oruchwyliaeth. Mae'r diwrnod gwaith yn gorffen am 4pm. Yn ystod wythnosau theatr byddwch yn gweithio o dan oruchwyliaeth ymgynghorydd neu uwch feddyg sy'n darparu anesthesia ar gyfer ystod eang o lawdriniaethau ac amrywiaeth o grwpiau cleifion, gan gynnwys oedolion a phlant. Byddwch yn dysgu sut i asesu cleifion ymlaen llaw a gweithio ar y sgiliau ymarferol a damcaniaethol sydd eu hangen i greu a chynnal anesthesia. Diwrnod gwaith rhwng 8am a 4pm. Mae gwaith y tu allan i oriau yn cynnwys sifftiau nos sy'n cwmpasu'r rota F1 Llawfeddygol o dan oruchwyliaeth llawfeddyg ymgynghorol a chofrestrydd.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F1 Addysgu Anesthetig a Gofal Critigol drwy gydol y flwyddyn. Disgwylir i chi fynychu a gwneud cyflwyniadau yn y cyfarfodydd archwilio/rheoli clinigol misol.
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Anna Pisarczyk-Bathini

Llawfeddygaeth Gyffredinol / Y Colon a'r Rhefr	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP21C
Band **2B - 50%	1:11
Rheolaeth ddewisol ac argyfwng o gleifion llawfeddygol (cyffredinol / y llwybr gastroberfeddol uchaf / y colon a'r rhefr) mewn ysbyty cyffredinol nodweddiadol. Pwyslais penodol ar lawdriniaeth mynediad minimol ac ymyrraeth endosgopig. Rheoli cleifion llawfeddygol sy'n ddifrifol wael. Mae'r swydd hon yn cynnig profiad cyflawn o lawfeddygaeth gyffredinol a llawfeddygaeth y colon a'r rhefr ar draws holl ystod yr arbenigedd. Mae'r swydd hefyd yn darparu profiad o asesu a rheoli cleifion llawfeddygol brys a chleifion sy'n ddifrifol wael. O dan oruchwyliaeth glinigol ac addysgol ymgynghorwyr profiadol, bydd y meddyg yn cael cyfleoedd i gyflawni cymwyseddau priodol ac yn cael ei annog i gymryd rhan mewn Prosiectau Gwella Gwasanaeth. Bydd deiliad y swydd hon yn un o 5 meddyg FY1 a gefnogir gan ANPs, F2/CTs a Chofrestryddion o dan oruchwyliaeth agos Ymgynghorwyr. Mae'r patrwm gwaith yn cynnwys cyfuniad o ddiwrnodau arferol, sifftiau ar alw dydd a nos, ar rota sy'n cydymffurfio'n llawn â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd. *Oherwydd llwybrau Covid, efallai y bydd gofyniad parhaus i feddygon F1 sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili ymgymryd â dyletswyddau yn Ysbyty'r Tywysog Philip gan mai dyma'r safle dewisol yn Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn hefyd yn golygu y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd addysgol a hyfforddiant.*	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu llawfeddygol amser cinio Cyfarfod Tîm Amlddisgyblaethol, boreau Mercher a phrynhawniau Gwener Rhaglen addysgu F1 orfodol Addysgu adrannol – Bydd y deiliad yn cael pynciau i'w paratoi a'u cyflwyno yn y cyfarfodydd hyn **Misol** Morbidrwydd a Marwoldeb Adrannol
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr Usama Mohamed

Meddygaeth Gyffredinol / Gastroenteroleg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP22A
Band 1B 40%	Rota 1:22
Mae'r swydd hon yn cynnig cyfle i fod yn rhan o dîm cyfeillgar a deinamig o ymgynghorwyr gastroenteroleg, dietegwyr a nyrsys arbenigol. Bydd yr hyfforddai'n cael cyfle i ddod i gysylltiad ag ystod eang o unigolion sydd â chyflyrau sy'n gysylltiedig â lwmina a hepatoleg, ac sy'n cael eu gweld fel cleifion mewnol yn Ysbyty'r Tywysog Philip, a chyfrannu'n weithredol at eu rheoli, gan gynnwys clefyd llidiol cymhleth y coluddyn, clefyd yr afu, malaenedd Gastroberfeddol a	

phatholegau uwch sy'n gysylltiedig â maeth. Bydd yr hyfforddai'n elwa o rowndiau ward rheolaidd o dan arweiniad meddyg ymgynghorol ac addysgu ar erchwyn y gwely a fydd yn meithrin gwybodaeth a rhesymu clinigol. Anogir pob aelod o'r tîm i chwilio am gyfleoedd addysgol, yn enwedig mynd i weld cleifion allanol i arsylwi a gweld cleifion eu hunain. Mae clinigau arbenigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn Ysbyty'r Tywysog Philip, gan gynnwys IBD cymhleth, clefyd yr afu sy'n cynnwys hepatitis feirysol, a gwiriadau ôl-drawsblaniadau afu, ochr yn ochr ag atgyfeiriadau gastroenteroleg cyffredinol. Bydd cyfle hefyd i fynd i'r adran endosgopi i arsylwi endosgopi gastroberfeddol uwch ac is, a fydd yn cynnwys therapiwteg. Mae disgwyl i bob hyfforddai fod yn gymwys i gyflawni parasentesis abdomenol erbyn iddynt gwblhau'r cyfnod cyswllt. Ochr yn ochr â'u dyletswyddau ward arferol, bydd y meddyg iau hefyd yn rhan o'r rota meddygol cyffredinol ac yn cael y cyfle i weld cleifion meddygol sy'n ddifrifol wael yn cael eu derbyn i'r uned asesu meddygol acíwt tra'n rhan o'r Tîm Achosion Brys Meddygol ac ymateb i alwadau thrombolysis strôc acíwt.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Dyddiol** Rowndiau ward **Wythnosol** Cyfarfod Meddygol Addysgu FY1 **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Dafydd Bowen

Clust, Trwyn a Gwddf (ENT)	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP22B
Band 1B-40%	Rota 1:5
Mae'r adran Clust, Trwyn a Gwddf (ENT) yng Ngorllewin Cymru yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau ENT i boblogaeth wasgaredig, wledig yn bennaf. Mae tri meddyg FY2 ac 1 meddyg FY1 yn gweithio gyda hyfforddai llawfeddygol craidd a GPST ar lefel ar alwad gyntaf. Cefnogir yr haen iau gan chwe meddyg ar lefel cofrestrydd, gan gynnwys un hyfforddai llawfeddygol uwch mewn ENT, a chwe llawfeddyg ENT ymgynghorol. Mae gennym ethos gweithio mewn tîm cryf iawn ac mae pob meddyg yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ac yn darparu cefnogaeth i gydweithwyr yn ôl yr angen. Mae'r dyletswyddau'n cynnwys rheoli cleifion mewnol dewisol ac achosion brys ar wardiau ENT a phediatrig oedolion. Mae'r rota ar alwad ar gyfer meddygon F2 yn cynnwys derbyniadau ENT brys tan 8:30pm yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau, a thraws-gyflenwi ar gyfer derbyniadau ENT ac wroleg dros nos. Mae'r meddyg F1 yn ennill profiad o reoli derbyniadau llawfeddygol cyffredinol ar alwad. Mae digon o feddygon iau yn ein hadran sy'n rhoi digon o gyfle i feddygon sylfaen fynd i glinigau cleifion allanol a threulio amser yn y theatr llawdriniaethau. Yn ogystal â chael y cymwyseddau cyffredinol sydd eu hangen ar bob meddyg, rydym yn annog ein hyfforddeion i wella eu profiad o reoli cyflyrau ENT cyffredin ymhlith cleifion allanol, ac mae llawer o feddygon sylfaen wedi gallu dechrau coflyfr o achosion llawfeddygol y maent wedi bod yn rhan ohonynt. Mae'r cyfnod hwn yn y theatr yn eu rhoi mewn sefyllfa dda wrth wneud cais am swyddi hyfforddi pellach. Mae cyfran sylweddol o'n grŵp cleifion yn ifancach nac 18 oed, sy'n rhoi profiad pediatrig i'r meddygon hynny sy'n ystyried gyrfa mewn meddygaeth bediatrig neu ymarfer cyffredinol.	

Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu'r Cwricwlwm Craidd F1 Addysgu yn yr Adran Clust, Trwyn a Gwddf (ENT) Addysgu ar achosion ENT ac wroleg brys ar ddechrau eu lleoliad i baratoi ar gyfer ymrwymiadau ar alwad. Cefnogaeth addysgol barhaus i feddygon yn eu gwaith bob dydd. Mae gennym fyfyrwyr meddygol o ysgolion meddygol Caerdydd ac Abertawe ar leoliad ac mae hyn yn rhoi cyfle i hyfforddeion sylfaen ddatblygu eu sgiliau addysgu eu hunain. Rydym yn cefnogi presenoldeb ein meddygon sylfaen yn llawn yn y diwrnodau hyfforddiant sylfaen rhanbarthol ac yn eu hannog i gwblhau cyrsiau ALS, ILS a, lle bo hynny'n berthnasol, cyrsiau PSA. Mae'r adran ENT hefyd wedi datblygu cysylltiadau agos ag adrannau eraill a gofal sylfaenol er mwyn trefnu diwrnodau blasu mewn arbenigeddau eraill pe bai angen.
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr Antony Howarth

Llawdriniaeth Gyffredinol / y Llwybr Gastroberfeddol Uchaf	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP22C
Band **2B - 50%	Rota 1:11

Rheolaeth ddewisol ac argyfwng o gleifion llawfeddygol (cyffredinol / y llwybr gastroberfeddol uchaf / y colon a'r rhefr) mewn ysbyty cyffredinol nodweddiadol. Pwyslais penodol ar lawdriniaeth mynediad minimol ac ymyrraeth endosgopig. Rheoli cleifion llawfeddygol sy'n ddifrifol wael.

Mae'r swydd hon yn cynnig profiad cyflawn o lawfeddygaeth gyffredinol a llawfeddygaeth y colon a'r rhefr ar draws holl ystod yr arbenigedd. Mae'r swydd hefyd yn darparu profiad o asesu a rheoli cleifion llawfeddygol brys a chleifion sy'n ddifrifol wael. O dan oruchwyliaeth glinigol ac addysgol ymgynghorwyr profiadol, bydd y meddyg yn cael cyfleoedd i gyflawni cymwyseddau priodol ac yn cael ei annog i gymryd rhan mewn Prosiectau Gwella Gwasanaeth.

Bydd deiliad y swydd hon yn un o 5 meddyg FY1 a gefnogir gan ANPs, F2/CTs a Chofrestryddion o dan oruchwyliaeth agos Ymgynghorwyr. Mae'r patrwm gwaith yn cynnwys cyfuniad o ddiwrnodau arferol, sifftiau ar alw dydd a nos, ar rota sy'n cydymffurfio'n llawn â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd.

Oherwydd llwybrau Covid, efallai y bydd gofyniad parhaus i feddygon F1 sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili ymgymryd â dyletswyddau yn Ysbyty'r Tywysog Philip gan mai dyma'r safle dewisol yn Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn hefyd yn golygu y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd addysgol a hyfforddiant.

Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu llawfeddygol amser cinio. Cyfarfod Tîm Amlddisgyblaethol, boreau Mercher a phrynhawniau Gwener Rhaglen addysgu F1 orfodol

	Addysgu adrannol – bydd y deiliad yn cael pynciau i'w paratoi a'u cyflwyno yn y cyfarfodydd hyn. **Misol** Morbidrwydd a Marwoldeb Adrannol
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr Mark Henwood

Meddygaeth Gyffredinol / Anadlol	**Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli**
Rhaglenni:	FP23A
Band 2B-50%	Rota 1:26
Rhennir cleifion Ward 3 rhwng y tri Meddyg Ymgynghorol Anadlol, gan ystyried y diddordebau is-arbenigedd, ond mae'r tîm yn cael ei rannu ac yn gofalu am y ward gyfan. Yn y rôl, byddwch yn ymwneud â rheoli cleifion sydd â methiant anadlol, gan gynnwys cymorth anadlu anymwthiol ar y ward. Byddwch hefyd yn rheoli cleifion sydd â chlefyd eisbilennol, gan gynnwys amrywiaeth o ddraeniau ar y frest. Mae hyfforddiant cymhwysedd yn NIV yn cael ei arwain gan ein uwch nyrs anadlol arbenigol. Dylid dysgu gweithdrefnau eisbilennol yn y labordy sgiliau yn yr adran ôl-raddedig, ac mae hyfforddiant yn cael ei arwain gan ein cofrestryddion a'n cymrodyr addysgu. Pan fydd amser yn caniatáu, anogir meddygon iau i fynd i glinigau eisbilennol ar brynhawniau Llun i gael y cyfle i ddysgu sgiliau allsugno eisbilennol a mewnosod draeniau'r frest.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Dyddiol** Rowndiau Ward o dan arweiniad Meddyg Ymgynghorol **Wythnosol** Cyfarfod Meddygol FY1 Addysgu Rowndiau Ward Mawr Addysgu Adran Anadlol **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Mark Andrews

Haematoleg a Gofal Lliniarol	**Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli**
Rhaglenni:	FP23B
Band 2B-50%	Rota 1:26
Haematoleg: Mae'r meddyg FY1 yn rhan o dîm sy'n cynnwys haematolegydd ymgynghorol, meddyg FY2 a nyrs arbenigol haematoleg. Mae cleifion mewnol yn cael eu gweld bob dydd ar rownd ward o dan arweiniad Meddyg Ymgynghorol. Mae'r tîm hefyd yn gyfrifol am gleifion gofal dydd sy'n ymweld â'r ysbyty ar gyfer cemotherapi, gwaed a thrallwysiadau cynnyrch gwaed yn yr uned cemotherapi a'r ysbyty dydd. Gofal Lliniarol: Mae'r gwasanaeth gofal lliniarol yn cynnwys Meddyg Ymgynghorol, Arbenigwr Cyswllt, Cofrestrydd a meddyg FY2, ac mae hosbis 7 gwely ar y safle. Mae'r tîm hefyd yn cynnal rowndiau ward rheolaidd, gan ddarparu cyngor am gleifion mewnol meddygol. Mae cyfleoedd dysgu rhagorol i ennill y cymwyseddau sy'n angenrheidiol ar gyfer blwyddyn FY1. Mae'r gweithdrefnau y gellir eu dysgu, ar wahân i'r cymwyseddau craidd, yn cynnwys biopsi mêr esgyrn, tynnu cathetr	

canolog wedi'i fewnosod yn ymylol (PICC) a llinell Hickman. Mae cyfle hefyd i gael profiad o wasanaethau labordy, gan gynnwys adrodd ar gaenennau gwaed a mêr esgyrn.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Dyddiol** Rowndiau Ward o dan arweiniad Meddyg Ymgynghorol **Wythnosol** Clwb Cyfnodolion Meddygol FY1 Addysgu Rowndiau Ward Mawr Addysgu Adran Anadlol **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Rhian Fuge

Llawfeddygaeth Gyffredinol / Y Colon a'r Rhefr	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP23C
Band **2B - 50%	Rota 1:11
Rheolaeth ddewisol ac argyfwng o gleifion llawfeddygol (cyffredinol / y llwybr gastroberfeddol uchaf / y colon a'r rhefr) mewn ysbyty cyffredinol nodweddiadol. Pwyslais penodol ar lawdriniaeth mynediad minimol ac ymyrraeth endosgopig. Rheoli cleifion llawfeddygol sy'n ddifrifol wael. Mae'r swydd hon yn cynnig profiad cyflawn o lawfeddygaeth gyffredinol a llawfeddygaeth y colon a'r rhefr ar draws holl ystod yr arbenigedd. Mae'r swydd hefyd yn darparu profiad o asesu a rheoli cleifion llawfeddygol brys a chleifion sy'n ddifrifol wael. O dan oruchwyliaeth glinigol ac addysgol ymgynghorwyr profiadol, bydd y meddyg yn cael cyfleoedd i gyflawni cymwyseddau priodol ac yn cael ei annog i gymryd rhan mewn Prosiectau Gwella Gwasanaeth. Bydd deiliad y swydd hon yn un o 5 meddyg FY1 a gefnogir gan ANPs, F2/CTs a Chofrestryddion o dan oruchwyliaeth agos Ymgynghorwyr. Mae'r patrwm gwaith yn cynnwys cyfuniad o ddiwrnodau arferol, sifftiau ar alw dydd a nos, ar rota sy'n cydymffurfio'n llawn â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd. *Oherwydd llwybrau Covid, efallai y bydd gofyniad parhaus i feddygon F1 sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili ymgymryd â dyletswyddau yn Ysbyty'r Tywysog Philip gan mai dyma'r safle dewisol yn Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn hefyd yn golygu y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd addysgol a hyfforddiant.*	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu llawfeddygol amser cinio. Cyfarfod Tîm Amlddisgyblaethol, boreau Mercher a phrynhawniau Gwener. Rhaglen addysgu F1 orfodol. Addysgu adrannol – bydd y deiliad yn cael pynciau i'w paratoi a'u cyflwyno yn y cyfarfodydd hyn. **Misol** Morbidrwydd a Marwoldeb Adrannol

Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr Pawan Rao

Anestheteg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP24A
Band 1B - 40%	Rota 1:11
Yn ystod y lleoliad 4 mis byddwch yn ennill profiad yn ystod y dydd mewn meddygaeth gofal dwys ac anesthesia, am yn ail gyda hyfforddai Sylfaen arall. Tra byddwch yn yr uned gofal dwys, byddwch yn cael eich goruchwylio gan ymgynghorydd a 2 feddyg preswyl. Byddwch yn ennill profiad o ddelio â chleifion sy'n ddifrifol wael, o'u derbyn i'r ysbyty hyd at eu rhyddhau. Mae'r drefn ddyddiol yn dechrau gyda chymryd yr awenau oddi wrth y tîm nos am 8 y bore, adolygiadau cleifion, rownd ward o dan arweiniad meddyg ymgynghorol gyda chyflwyniad o'r canfyddiadau, ac yna tasgau ward. Anogir presenoldeb mewn galwadau brys ac wrth asesu derbyniadau newydd o dan oruchwyliaeth. Mae'r diwrnod gwaith yn gorffen am 4pm. Yn ystod wythnosau theatr byddwch yn gweithio o dan oruchwyliaeth ymgynghorydd neu uwch feddyg sy'n darparu anesthesia ar gyfer ystod eang o lawdriniaethau ac amrywiaeth o grwpiau cleifion, gan gynnwys oedolion a phlant. Byddwch yn dysgu sut i asesu cleifion ymlaen llaw a gweithio ar y sgiliau ymarferol a damcaniaethol sydd eu hangen i greu a chynnal anesthesia. Diwrnod gwaith rhwng 8am a 4pm. Mae gwaith y tu allan i oriau yn cynnwys sifftiau nos sy'n cwmpasu'r rota F1 Llawfeddygol o dan oruchwyliaeth llawfeddyg ymgynghorol a chofrestrydd.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F1 Addysgu Anesthetig a Gofal Critigol drwy gydol y flwyddyn. Disgwylir i chi fynychu a gwneud cyflwyniadau yn y cyfarfodydd archwilio/rheoli clinigol misol.
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Anna Pisarczyk-Bathini

Obstetreg a Gynaecoleg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP24B
Band 2B - 50%	Rota 1:11
I ymuno â'r tîm prysur yn yr adran Obstetreg a Gynaecoleg, lle mae 3,200 o esgoriadau mamolaeth bob blwyddyn a 6,000-8,000 o atgyfeiriadau gynaecoleg. I gymryd rhan mewn rota 1:11 ar lefel galwad gyntaf, sy'n cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd. Mae digon o gyfle i ennill profiad ym maes achosion obstetreg a gynaecoleg brys ar y Ward Geni, Ward Cyn-enedigol / Ôl-enedigol, Ward Gynecoleg, rhestr Cesaraidd ddewisol a theatr gynecoleg ddewisol. Mae cyfle i fynd i glinigau cleifion allanol ar gyfer obstetreg a gynaecoleg i ddatblygu sgiliau clinigol yn y maes, fel cael hanes, cynnal archwiliadau clinigol, dehongli canlyniadau a llunio cynlluniau rheoli. Mae cyfle hefyd i fynd i glinigau diddordeb arbennig fel hysterosgopi, colposgopi, wrodynameg, beichiogrwydd cynnar ac uned asesu dydd cyn-enedigol, yn dibynnu ar	

yr hyn sydd ar gael. Pan fydd Meddygon Sylfaen ar alwad yn ystod y nos, cânt eu cefnogi gan yr Ymarferwyr Nyrsio nos, yn ogystal â chael eu goruchwylio'n uniongyrchol gan Gofrestrydd. Mae Meddygon Sylfaen yn mynychu rownd y ward, sy'n cael ei oruchwylio gan uwch aelodau'r tîm. Hefyd, maent yn cael cyfle i fynychu cyfarfod y Tîm Amlddisgyblaethol a chyfarfodydd Rheoli Risg.

Oherwydd llwybrau Covid, efallai y bydd gofyniad parhaus i feddygon F1 sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili ymgymryd â dyletswyddau yn Ysbyty'r Tywysog Philip gan mai dyma'r safle dewisol yn Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn hefyd yn golygu y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd addysgol a hyfforddiant.

Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F1 Addysgu Adrannol Wythnosol Fforwm Ward Geni. Hyfforddiant PROMPT misol. Cyfleoedd i gyflwyno a chymryd rhan mewn archwiliadau a gweithgareddau addysgol eraill. Anogir Meddygon Sylfaen i gymryd rhan mewn addysgu myfyrwyr meddygol.
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Roopam Goel

Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP24C
Band 1B - 40%	Rota 1:22

Mae'r tîm yn cynnwys dau Ymgynghorydd sy'n goruchwylio'r swydd hon
Dr N Coles - COTE, sydd â diddordeb mewn llesgedd ac adsefydlu
Dr A Gupta - prif oruchwylydd - COTE, sydd â diddordeb mewn Osteoporosis ac Orthogeriatreg

Dysgu ac ymarfer meddygaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn ysbyty rhanbarthol acíwt yng Nglangwili, Caerfyrddin. Mae'r rhan fwyaf o'r arbenigeddau acíwt wedi'u lleoli yma, ac rydym yn gweithio mewn amgylchedd cyfeillgar gydag arbenigwyr hawdd mynd atynt.
Rota Gwaedu Gastroberfeddol Ymgynghorol (allan o bob un o'r 4 ysbyty yn BIP Hywel Dda)
Mae rota Meddygaeth Gyffredinol ar alwad ar gyfer derbyniadau meddygol acíwt i'r ysbyty, sy'n cynnwys pob grŵp oedran oedolion, ynghyd â chleifion oedrannus.
Goruchwyliaeth ar alwad bob amser, gan y Cofrestrydd Meddygol sydd ar gael ac sydd ar y safle 24 awr y dydd.
Profiad o weithio yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol a gofal dydd, gyda Meddygon Acíwt eraill pan fyddant ar alwad. Mae Ymgynghorydd Meddygol ar gael ar y safle rhwng 0800 a 2000 yn ystod yr wythnos.
Profiad o reoli cleifion yn yr Uned Gofal Coronaidd pan ar alwad.
Gwneud rowndiau ward, yn bennaf ward 20 gwely (Meddygaeth a Llesgedd) yn ystod yr wythnos, ynghyd â chleifion mewn ward allanol ac ITU (gofal ar y cyd) o bryd i'w gilydd.
Dysgu dulliau rheoli acíwt a hirdymor o heriau cymhleth / cydafiachedd / cymhlethdod / amlgyffuriaeth / llesgedd / gofal diwedd oes / materion DNAR / cwympiadau / cydsynio / materion capasiti / cyfathrebu / gweithio mewn tîm / cadw cofnodion
Gweithdrefnau cyffredin ar erchwyn y gwely
Trafodaethau gyda theuluoedd

Cysylltu ag arbenigeddau/gweithwyr proffesiynol eraill Cysylltu a deall gwaith amlddisgyblaethol Materion cymhleth yn ymwneud â rhyddhau cleifion Rôl ysbytai dydd ac ysbytai adsefydlu Gwirio a gweithredu ar ganlyniadau gwaed a sganio annormal Mae'r dysgu'n seiliedig ar Egwyddorion Ymarfer Meddygol Da'r Cyngor Meddygol Cyffredinol O dan oruchwyliaeth hyfforddai ymarfer cyffredinol, meddyg sylfaen F2 a meddyg gradd canol Nid ydych fel arfer yn mynd ar rowndiau ward ar ben eich hun, fel arfer cewch eich cefnogi gan feddyg/meddygon eraill y tîm Gwneud Asesiadau (DOPS/mini-CEX, CBD) Cymryd rhan mewn rhaglen Gwella Ansawdd - fe'ch anogir i ymgymryd â phrosiect Gwella Ansawdd/cymryd rhan mewn cyfarfod archwilio ysbyty misol/gwneud adolygiadau marwoldeb o nodiadau Mynychu a chyflwyno mewn gweithgareddau addysgol yn yr ysbyty Mae'r ymgynghorydd yn gefnogol iawn o ran gwyliau blynyddol/absenoldeb astudio Ysgrifennydd rhagorol – yn trefnu cinio ar ddydd Iau a dydd Gwener, yn aml gyda chefnogaeth cwmni fferylliaeth, sy'n rhoi cyfle iddynt addysgu am eu cynnyrch a gwyddoniaeth gysylltiedig	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu'r Cwricwlwm Craidd F1 Cyfarfod amser cinio dydd Llun i ôl-raddedigion, gyda chinio Addysgu Meddygon Ymgynghorol a Meddygon Gradd Canol yn ystod Rowndiau Ward Clinig OPD dewisol ar Feddygaeth Gyffredinol ac osteoporosis Anogaeth i gyhoeddi / gwneud gweithgareddau ymchwil. (Mae gan yr ymgynghorydd sawl cyhoeddiad) Addysgu a hyfforddi mewn labordy sgiliau clinigol yn y ganolfan ôl-raddedig Addysgu a hyfforddi tuag at arholiad MRCP
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Abhaya Gupta

Wroleg	Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin
Rhaglenni:	FP06A
Band: 1B - 40%	

Disgrifiad o'r lleoliad:

- Rowndiau ward a chyflwyno derbyniadau newydd
- Clercio achosion acíwt a dewisol
- Llythyrau rhyddhau cryno
- Bod yn bresennol mewn clinigau cathetreiddio

Mae rowndiau ward dyddiol yn rhoi cyfleoedd rhagorol i feddygon F1 weld derbyniadau wrolegol acíwt, cyflwyno achosion newydd i uwch gydweithwyr, adolygu sganiau, gofyn cwestiynau a dysgu am ymchwiliadau a thrin achosion wrolegol. Disgwylir i'r meddyg F1 gathetreiddio dynion a merched, gosod caniwla, cynnal meithriniadau gwaed a dysgu sut i ofalu am dderbyniadau brys o dan oruchwyliaeth.

Mae meddygon F1 hefyd yn cael eu hannog i fynd i'r theatr, unedau llawdriniaeth dydd a thrafodaethau'r Tîm Amlddisgyblaethol i brofi parhad gofal. Mae meddygon sylfaen yn cael addysg glinigol graidd rheolaidd am ganol dydd. Addysgu sgiliau clinigol ac efelychu. Gwaith ward *Oherwydd llwybrau Covid, efallai y bydd gofyniad parhaus i feddygon F1 sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili ymgymryd â dyletswyddau yn Ysbyty'r Tywysog Philip gan mai dyma'r safle dewisol yn Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn hefyd yn golygu y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd addysgol a hyfforddiant.*

Cyfarfodydd Addysgol:	Dyddiol: Rowndiau ward Wythnosol: Addysgu F1 Addysgu clinigol craidd rheolaidd
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr Mahmood Shafi

Meddygaeth Gyffredinol / Gastroenteroleg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP06B
Band 1B 40%	Rota 1:22
Mae'r swydd hon yn cynnig cyfle i fod yn rhan o dîm cyfeillgar a deinamig o ymgynghorwyr gastroenteroleg, dietegwyr a nyrsys arbenigol. Bydd yr hyfforddai'n cael cyfle i ddod i gysylltiad ag ystod eang o unigolion sydd â chyflyrau sy'n gysylltiedig â lwmina a hepatoleg, ac sy'n cael eu gweld fel cleifion mewnol yn Ysbyty'r Tywysog Philip, a chyfrannu'n weithredol at eu rheoli, gan gynnwys clefyd llidiol cymhleth y coluddyn, clefyd yr afu, malaenedd Gastroberfeddol a phatholegau uwch sy'n gysylltiedig â maeth. Bydd yr hyfforddai'n elwa o rowndiau ward rheolaidd o dan arweiniad meddyg ymgynghorol ac addysgu ar erchwyn y gwely a fydd yn meithrin gwybodaeth a rhesymu clinigol. Anogir pob aelod o'r tîm i chwilio am gyfleoedd addysgol, yn enwedig mynd i weld cleifion allanol i arsylwi a gweld cleifion eu hunain. Mae clinigau arbenigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn Ysbyty'r Tywysog Philip, gan gynnwys IBD cymhleth, clefyd yr afu sy'n cynnwys hepatitis feirysol, a gwiriadau ôl-drawsblaniadau afu, ochr yn ochr ag atgyfeiriadau gastroenteroleg cyffredinol. Bydd cyfle hefyd i fynd i'r adran endosgopi i arsylwi endosgopi gastroberfeddol uwch ac is, a fydd yn cynnwys therapiwteg. Mae disgwyl i bob hyfforddai fod yn gymwys i gyflawni parasentesis abdomenol erbyn iddynt gwblhau'r cyfnod cyswllt. Ochr yn ochr â'u dyletswyddau ward arferol, bydd y meddygon iau hefyd yn rhan o'r rota meddygol cyffredinol ac yn cael y cyfle i weld cleifion meddygol sy'n ddifrifol wael yn cael eu derbyn i'r uned asesu meddygol acíwt tra'n rhan o'r Tîm Achosion Brys Meddygol ac ymateb i alwadau thrombolysis strôc acíwt.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Dyddiol** Rowndiau ward **Wythnosol** Cyfarfod Meddygol Addysgu FY1 **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Dafydd Bowen

Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed	**Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli**
Rhaglenni:	FP06C
Band 2B - 50%	1:26
Gofalu am gleifion mewnol sydd yng ngofal y tîm ar ein 2 ward (ward 1 a ward 9), ynghyd ag unrhyw allanolion o feddygon ar alwad. Mae'r cleifion hyn o dan ofal 2 Ymgynghorydd (Dr Haden a Dr Sheehan). Mae rhai cyfleoedd i fynychu clinigau, yn ogystal â chael profiad o waith ein prosiect cartref gofal cymunedol, yn dibynnu ar lwyth gwaith cleifion mewnol.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Mae gan yr ysbyty raglen addysgol boblogaidd, gan gynnwys addysgu F1, clwb cyfnodolion, rowndiau ward mawr a chyfarfod geriatreg wythnosol lle mae myfyrwyr iau yn gwneud cyflwyniad byr (10 munud) ar bwnc diddorol.
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Andrew Haden

Wroleg (LIFT)	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP115A
Dim Band	Mae'r rota o ddydd Llun i ddydd Iau *Gwener yn SDEC
Rowndiau ward a chyflwyno derbyniadau newydd Clercio achosion acíwt a dewisol Llythyrau rhyddhau cryno Gwaith ward Gwener: Profiad o Ymarfer Cyffredinol *Oherwydd llwybrau Covid, efallai y bydd gofyniad parhaus i feddygon F1 sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili ymgymryd â dyletswyddau yn Ysbyty'r Tywysog Philip gan mai dyma'r safle dewisol yn Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn hefyd yn golygu y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd addysgol a hyfforddiant.*	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F1 Mae rowndiau ward dyddiol yn rhoi cyfleoedd rhagorol i feddygon F1 weld derbyniadau wrolegol acíwt, cyflwyno achosion newydd i uwch gydweithwyr, adolygu sganiau, gofyn cwestiynau a dysgu am ymchwiliadau a thrin achosion wrolegol. Disgwylir i'r meddyg F1 gathetreiddio dynion a merched ar y ward a thrwy fynychu clinigau Wroleg dan arweiniad CNS, mewnosod caniwla, perfformio meithriniadau gwaed a dysgu sut i ofalu am dderbyniadau brys o dan oruchwyliaeth. Mae meddygon F1 hefyd yn cael eu hannog i fynd i'r theatr, unedau llawdriniaeth dydd a thrafodaethau'r Tîm Amlddisgyblaethol i brofi parhad gofal.

Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr Mahmoud Shafii

Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlol yn y Gymuned (LIFT)	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP115B
Dim Band	*Dim gwaith ar alwad, yr holl waith rhwng 9-5pm* *Dydd Gwener - Gofal Lliniarol

Mae Gofal Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlu yn dilyn model iechyd 'cwrs bywyd' sy'n ymdrin â darparu dulliau atal cenhedlu yn ogystal ag atal a thrin heintiau a drosglwyddir yn rhywiol. Mae'n cynnwys cefnogi llesiant rhywiol, ni waeth beth yw cefndir neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn, ac mae'n cynnwys cynllunio teuluoedd.

Darperir gwasanaethau Iechyd Rhywiol Hywel Dda ar draws tair sir o nifer o safleoedd cymunedol ac ysbytai. Yn dilyn CV-19, rydym hefyd wedi cyflwyno system brysbennu dros y ffôn a thechnoleg newydd i gefnogi ymgynghoriadau fideo.

Byddwch yn cael cyfle i gysgodi mewn amrywiaeth o glinigau (e.e. atal cenhedlu, iechyd rhywiol, seicorywiol, gwasanaethau erthylu), wyneb yn wyneb a dros fideo/ffôn, gan ddatblygu'r sgiliau allweddol o ran cofnodi hanes rhywiol ac archwilio. Mae cynllun hyfforddi strwythuredig drwy gydol y lleoliad gyda thiwtorialau wythnosol ac amser wedi'i neilltuo ar gyfer dysgu hunangyfeiriedig.

Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F1 Bob prynhawn dydd Mawrth mae cyfleoedd addysgol dynodedig yn yr adran (mae clinigau ar gau yn y prynhawn). Bydd meddygon F1 yn cael eu hannog i gymryd rhan a mynychu'r holl hyfforddiant mewnol. Mae gennym hefyd amserlen benodol o diwtorialau ar gyfer meddygon F1 sy'n gyfuniad o diwtorialau hunangyfeiriedig a bach (gan gynnal pellter cymdeithasol neu dros Microsoft Teams) sy'n ymdrin ag agweddau hanfodol ar Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlol ac sy'n cynnwys llyfr log y bydd meddygon F1 yn ei gwblhau yn ystod eu lleoliadau.
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Adam Tyler

Meddygaeth Gyffredinol / Anadlol (LIFT)	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP115C
Band 1B - 40%	Rota 1:6 *Dydd Mercher - Ymarfer Cyffredinol
Darpariaeth ddyddiol ar gyfer ward Anadlol 19 gwely, ynghyd â hyd at 5 o gleifion mewn ward allanol, gan weithio fel rhan o dîm o 1 F1, 1 F2, 1 IMT, 1 Cymrawd Clinigol, 1 Meddyg Arbenigol, 2 SR a 4 meddyg ymgynghorol. Mynychu a chyfrannu at ddwy rownd ward o dan arweiniad meddyg ymgynghorol bob wythnos ac un rownd ward o dan arweiniad meddyg gradd canol. Clercio ac asesu cleifion newydd sy'n dod i'r ward. Adolygiad dyddiol o gleifion ar y ward. Clercio a pharatoi achosion dydd sy'n mynychu'r ward ar gyfer clinig eisbilennol, biopsïau CT o dan arweiniad a thoracosgopi. Cymryd rhan yn y rhestr thoracosgopi wythnosol mewn cylchdro gyda staff iau eraill ar y tîm. Cymryd rhan ar rota derbyniadau meddygol annewisol Ysbyty Cyffredinol Glangwili.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F1 Cyfarfod adran feddygol wythnosol – darperir cinio Sesiwn addysgu Meddygaeth Anadlol – darperir cinio Dysgu wrth weithio gan feddygon gradd canol ac ymgynghorwyr, gyda chyfleoedd ar gyfer allsugno eisbilennol, USS a mewnosod draen rhyngasennol. Cyfleoedd i ddysgu gan nyrsys anadlol arbenigol, sbirometreg, NIV, techneg a dethol anadlydd. Cyfleoedd i brofi ystod eang o feddygaeth anadlol drwy ward ac Adran Cleifion Allanol, a sawl is-arbenigedd megis TB, canser yr ysgyfaint, asthma difrifol, clefyd eisbilennol, yn ogystal â dod i gysylltiad â broncosgopi, gan gynnwys uwchsain endobronciol a thoracosgopi. Mae Adsefydlu Ysgyfeiniol ar gael ar y safle hefyd. Dyddiau Gwener: Profiad ym maes Ymarfer Cyffredinol.
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Leanne Griffin

Gofal Brys yr Un Diwrnod (SDEC)	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglen:	FP115A
Dim Band **Mae hyfforddeion yn gweithio ar ddydd Gwener ym maes SDEC	
Elfen LIFFT: Bydd meddygon F1 yn treulio un diwrnod yr wythnos o'r cyfnod cylchdro F1 LIFT hwn ym maes Gofal Brys yr Un Diwrnod (SDEC). Byddai'r dyletswyddau'n cynnwys clercio cleifion, gweithdrefnau clinigol arferol a gweithio gydag ymgynghorydd goruchwylio i lunio cynlluniau rheoli a gwaith dilynol ar gyfer cleifion yn SDEC.	
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr George Eltom

Swyddi LIFT ym maes Ymarfer Cyffredinol	**Cymuned**
Rhaglenni:	Rhaglen LIFT FP115C
Dim band ** Mae hyfforddeion yn gweithio ar ddydd Mercher ym maes Ymarfer Cyffredinol	

Y cysyniad y tu ôl i raglen LIFT ar gyfer hyfforddeion F1 yw:

- Bod yn rhan o dîm gofal sylfaenol am 1 diwrnod yr wythnos trwy gydol Blwyddyn Sylfaen F1. Bydd gweddill yr amser yn ystod yr wythnos yn cael ei dreulio mewn lleoliad gofal eilaidd.
- Profiad o amrywiaeth eang o gyflyrau acíwt a chronig sy'n digwydd yn y gymuned ac sydd angen eu hatgyfeirio i ofal eilaidd o bryd i'w gilydd.
- Profi cyflyrau clinigol anwahaniaethol.
- Dysgu sut i ddelio ag ansicrwydd mewn amgylchedd clinigol cefnogol.
- Cael meddyg teulu fel goruchwylydd addysgol am y flwyddyn gyfan, gydag addysgu wythnosol rheolaidd.
- Gwerthfawrogi cymhlethdod gofal sylfaenol.

NID bwriad hyfforddiant LIFT yw hyfforddi na chynhyrchu meddygon teulu, ond yn hytrach rhoi cefnogaeth ac anogaeth i alluogi hyfforddai LIFT i ddatblygu sgiliau generig a darparu'r hyder i ddelio'n gymwys â chyflyrau clinigol cyffredin.

Bydd hyfforddeion Blwyddyn Sylfaen F1 yn cael cyfle i integreiddio'r hyn maen nhw wedi ei ddysgu yn yr ysgol feddygol mewn lleoliad gofal sylfaenol ac eilaidd, gyda goruchwyliwr addysgol (fel cyfaill beirniadol) yn annog yr hyfforddai gyda'i ddatblygiad proffesiynol mewn modd strwythuredig.

Cyfarfodydd Addysgol:

Gweithgareddau clinigol y gellir eu hystyried yn addysgol

- Yr amser a dreulir mewn gweithgareddau sy'n ymwneud ag asesu yn y gweithle a digwyddiadau dysgu o dan oruchwyliaeth.
- Yr amser a dreulir yn dadansoddi recordiadau fideo o ymgynghoriadau, fel ymarferion Mini-CEX, trafodaeth ar sail achosion lle mae amser yn cael ei neilltuo at y diben hwn.
- Cymryd rhan mewn clinigau sy'n cael eu rhedeg gan feddygon teulu eraill – fel rhestrau mân lawdriniaethau, pigiadau cymalau, clinigau clefydau cronig (yn enwedig lle mae angen goruchwyliaeth uniongyrchol yn y broses i gael gwiriad ffurfiol o gymwyseddau gweithdrefnol).

Gweithgareddau anghlinigol sy'n addas ar gyfer sesiynau addysgol

- Digwyddiadau addysgol wedi'u trefnu'n lleol, e.e. rhaglen addysgol sy'n benodol i'r meddygon sylfaen a gynhelir gan y ddeoniaeth neu'r ymddiriedolaeth, gan gynnwys sesiynau "rhyddhau am hanner diwrnod" neu sesiynau "rhyddhau am ddiwrnod cyfan".
- Gweithgareddau addysgol strwythuredig ac wedi'u cynllunio, e.e. tiwtorialau a gyflwynir yn y practis meddyg teulu.
- Cyfarfodydd tîm gofal sylfaenol.
- Cyfarfodydd goruchwylwyr addysgol ac adolygiadau addysgol eraill.
- Archwiliadau / prosiectau gwella ansawdd a gwaith ymchwil ym maes ymarfer cyffredinol.

• Astudio annibynnol. • Trafodaethau ar sail achosion wedi'u dewis o'r tu allan i'r amser adrodd yn ôl. • Yr amser a dreulir gyda gweithwyr proffesiynol eraill sydd ag arbenigedd mewn materion eraill sy'n ymwneud ag agwedd ar ofal iechyd a gweinyddu marwolaethau, gweithwyr cymdeithasol ac ymgymerwyr. Dod i adnabod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol lleol a helpu'r feddygfa i gynnal cysylltiadau â'r gymuned leol.

Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Gareth Richards

Swydd LIFT ym maes Gofal Lliniarol	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP115B
Dim Band. ** Mae hyfforddeion yn gweithio ar ddydd Gwener ym maes Gofal Lliniarol.	
Beth mae'r swydd yn ei gynnwys: Ymuno â thîm amlddisgyblaethol amrywiol a brwdfrydig sy'n gweithio yn Ysbyty Glangwili, gan gefnogi cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio at y Tîm Gofal Lliniarol Arbenigol fel rhan o gynllun LIFT. Bydd cyfleoedd i ymuno â Rowndiau Ward o dan arweiniad Meddyg Ymgynghorol, gweithio gyda Meddygon Arbenigol profiadol ac Arbenigwyr Nyrsio Clinigol i ddarparu gofal clinigol wrth ennill arbenigedd mewn rheoli symptomau, sgiliau cyfathrebu a rheoli ansicrwydd mewn senarios clinigol. Ochr yn ochr â'r ymrwymiad clinigol hwn, bydd cymorth ar gyfer Archwilio Clinigol a phrosiectau gwella ansawdd yn y tîm cefnogol hwn sy'n esblygu.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F1 wythnosol Cyfarfod wythnosol yr adran feddygol – darperir cinio
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Isobel Jackson

Manylion Lleoliadau Meddygon F2

Meddygaeth Frys	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP17A
Band 1A - 50%	Rota 1:5
Asesu a rheoli mân gyflwyniadau a chyflwyniadau difrifol i'r Uned Achosion Brys o dan Oruchwyliaeth Glinigol ar y safle. Bydd hyfforddeion yn cyfrannu at archwiliadau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys, gofal plant ac Asesiadau Gwybyddol ymhlith yr Henoed.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu'r Cwricwlwm Craidd F2 Addysgu yn yr Adran Achosion Brys **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd Diwrnodau Astudio F2 – 3 y flwyddyn

Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Nigel Waghorne

Meddygaeth Gyffredinol / Gofal yr Henoed	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP17B
Band 2B - 50%	Rota 1:22

Mae'r Tîm yn cynnwys dau Ymgynghorydd sy'n goruchwylio'r swydd hon:
Dr N Coles - COTE, sydd â diddordeb mewn llesgedd ac adsefydlu
Dr A Gupta - prif oruchwylydd - COTE, sydd â diddordeb mewn Osteoporosis ac Orthogeriatreg

Gall hyfforddeion yn y swydd hon ddysgu ac ymarfer meddygaeth ar sail tystiolaeth mewn ysbyty rhanbarthol acíwt yng Nglangwili, Caerfyrddin. Mae'r rhan fwyaf o'r arbenigeddau acíwt wedi'u lleoli yma. Rydym yn gweithio mewn amgylchedd cyfeillgar gydag arbenigwyr hawdd mynd atynt. Mae'r rota Gwaedu Gastroberfeddol Ymgynghorol wedi'i lleoli yma allan o bob un o'r 4 ysbyty yn BIP Hywel Dda. Mae rota Meddygaeth Gyffredinol ar alwad ar gyfer derbyniadau meddygol acíwt i'r ysbyty yn cynnwys pob grŵp oedran oedolion, ynghyd â chleifion oedrannus.

Caiff sifftiau ar alwad eu goruchwylio bob amser, gyda Chofrestrydd Meddygol ar gael ar y safle 24 awr y dydd.
Mae meddygon sylfaen yn ennill profiad o weithio yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol a gofal dydd, gyda Meddygon Acíwt eraill pan fyddant ar alwad. Mae Ymgynghorydd Meddygol ar gael ar y safle rhwng 0800 a 2000 yn ystod yr wythnos. Bydd hyfforddeion hefyd yn ennill profiad o reoli cleifion yn yr Uned Gofal Coronaidd pan ar alwad.

Mae hyfforddeion sylfaen hefyd yn cymryd rhan mewn:
Cwblhau rowndiau ward, 20 gwely y ward yn bennaf (Meddygaeth a Llesgedd) yn ystod yr wythnos ac weithiau gofalu am gleifion ar wardiau allanol ac ITU (gofal ar y cyd).
Dysgu dulliau rheoli acíwt a hirdymor o heriau cymhleth / cydafiachedd / cymhlethdod / amlgyffuriaeth / llesgedd / gofal diwedd oes / materion DNAR / cwympiadau / cydsynio / materion capasiti / cyfathrebu / gweithio mewn tîm / cadw cofnodion
Gweithdrefnau cyffredin ar erchwyn y gwely
Trafodaethau gyda theuluoedd
Cysylltu ag arbenigeddau/gweithwyr proffesiynol eraill
Cysylltu a deall gwaith Amlddisgyblaethol
Materion cymhleth yn ymwneud â rhyddhau cleifion
Rôl ysbytai dydd ac ysbytai adsefydlu
Gwirio a gweithredu ar ganlyniadau gwaed a sganio annormal
Mae'r dysgu'n seiliedig ar Egwyddorion Ymarfer Meddygol Da'r Cyngor Meddygol Cyffredinol
O dan oruchwyliaeth hyfforddai ymarfer cyffredinol, meddyg sylfaen F2 a meddyg gradd canol
Nid ydych fel arfer yn mynd ar rowndiau ward ar ben eich hun, fel arfer cewch eich cefnogi gan feddyg/meddygon eraill y tîm
Gwneud Asesiadau (DOPS / mini-CEX, trafodaethau ar sail achosion)
Cymryd rhan mewn rhaglen Gwella Ansawdd - fe'ch anogir i ymgymryd â phrosiect Gwella Ansawdd/cymryd rhan mewn cyfarfod archwilio ysbyty misol/gwneud adolygiadau marwoldeb o nodiadau
Mynychu a chyflwyno mewn gweithgareddau addysgol yn yr ysbyty
Mae'r ymgynghorydd yn gefnogol iawn o ran gwyliau blynyddol/absenoldeb astudio

Ysgrifennydd rhagorol – yn trefnu cinio ar ddydd Iau a dydd Gwener, yn aml gyda nawdd cwmni fferylliaeth, sy'n rhoi cyfle iddynt addysgu am eu cynnyrch a gwyddoniaeth gysylltiedig	
Cyfarfodydd Addysgol:	Addysgu F2 wythnosol ac 1 diwrnod astudio F2 fesul cyfnod cylchdro Cyfarfod amser cinio dydd Llun i ôl-raddedigion, gyda chinio Addysgu gan Feddygon Ymgynghorol a meddygon Gradd Canol yn ystod Rowndiau Ward Clinig OPD dewisol ar Feddygaeth Gyffredinol ac osteoporosis Anogaeth i gyhoeddi / gwneud gweithgareddau ymchwil. (Mae gan yr ymgynghorydd sawl cyhoeddiad) Addysgu a hyfforddi mewn labordy sgiliau clinigol yn y ganolfan ôl-raddedig Addysgu a hyfforddi tuag at arholiad MRCP
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Abhaya Gupta

Llawdriniaeth Gyffredinol / y Llwybr Gastroberfeddol Uchaf	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP17C
Band 2B - 50%	Rota 1:5
Rheolaeth ddewisol ac argyfwng o gleifion llawfeddygol (cyffredinol / y llwybr gastroberfeddol uchaf / y colon a'r rhefr) mewn ysbyty cyffredinol nodweddiadol. Pwyslais penodol ar lawdriniaeth mynediad minimol ac ymyrraeth endosgopig. Rheoli cleifion llawfeddygol sy'n ddifrifol wael. Mae'r swydd hon yn cynnig profiad cyflawn o lawfeddygaeth gyffredinol a llawfeddygaeth y colon a'r rhefr ar draws holl ystod yr arbenigedd. Mae'r swydd hefyd yn darparu profiad o asesu a rheoli cleifion llawfeddygol brys a chleifion sy'n ddifrifol wael. O dan oruchwyliaeth glinigol ac addysgol ymgynghorwyr profiadol, bydd y meddyg yn cael cyfleoedd i gyflawni cymwyseddau priodol ac yn cael ei annog i gymryd rhan mewn Prosiectau Gwella Gwasanaeth. Bydd deiliad y swydd hon yn un o 5 meddyg FY1 a gefnogir gan ANPs, F2/CTs a Chofrestryddion o dan oruchwyliaeth agos Ymgynghorwyr. Mae'r patrwm gwaith yn cynnwys cyfuniad o ddiwrnodau arferol, sifftiau ar alw dydd a nos, ar rota sy'n cydymffurfio'n llawn â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd. *Oherwydd llwybrau Covid, efallai y bydd gofyniad parhaus i feddygon F1 sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili ymgymryd â dyletswyddau yn Ysbyty'r Tywysog Philip gan mai dyma'r safle dewisol yn Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn hefyd yn golygu y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd addysgol a hyfforddiant.*	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F2 ac 1 diwrnod astudio F2 fesul cyfnod cylchdro Addysgu llawfeddygol amser cinio. Cyfarfod Tîm Amlddisgyblaethol Llawdriniaethol, boreau Mercher a phrynhawniau Gwener

Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Mr Ken Harries

Meddygaeth Gyffredinol	**Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli**
Rhaglenni:	FP123A
Band 2B - 50%	Rota 1:26
Mae'r dyletswyddau ar gyfer y swydd hon yn cynnwys: • Cefnogi'r gwaith o reoli cleifion mewnol o ddydd i ddydd • Mynychu rowndiau ward o dan arweiniad meddygon ymgynghorol • Cymryd rhan weithredol mewn derbyniadau acíwt • Rheoli cleifion sy'n ddifrifol wael • Trefnu ymchwiliadau a thriniaeth dan oruchwyliaeth agos • Cyfathrebu â pherthnasau ar gyfer cynllunio rhyddhau cleifion	
Cyfleoedd Addysgol	**Dyddiol** Rowndiau Ward o dan arweiniad Meddyg Ymgynghorol **Wythnosol** Cyfarfod Meddygol Addysgu F2 Rowndiau Ward Mawr **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	I'w gadarnhau

Ymarfer Cyffredinol/Llanelli	**Avenue Villa, Llanelli**
Rhaglenni:	FP71B
Band 1B 40%	Rota 1:7
Mae'r dyletswyddau'n cynnwys gofal sylfaenol mewn clinigau ac yn seiliedig ar weithdrefnau lle bo hynny'n berthnasol, e.e. asesu cleifion, adolygu cleifion a rheoli cyflyrau acíwt a thymor hir. **Dyletswyddau a gweithgareddau sy'n addas ar gyfer sesiynau clinigol** 1. Ymgynghoriadau o dan oruchwyliaeth neu wedi'u cefnogi o fewn y feddygfa, gydag isafswm hyd apwyntiad o 15 munud, ac 20 munud yn fwyaf cyffredin, ar gyfer ymgynghoriadau wyneb yn wyneb. Bydd digon o amser ar gael ar ddiwedd unrhyw gyfnod ymgynghori i alluogi hyfforddai i gael ôl-drafodaeth gyda'r meddyg teulu sy'n goruchwylio. 2. Ymweliadau cartref, ymweliadau cartrefi nyrsio, dyletswyddau ysbyty cymunedol o dan oruchwyliaeth neu wedi'u cefnogi, gan gynnwys amser ar gyfer ôl-drafodaeth a theithio. 3. Gwaith gweinyddol sy'n cefnogi gofal clinigol yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, sy'n cynnwys adolygu ymchwiliadau a chanlyniadau, ysgrifennu llythyrau atgyfeirio, gweithredu ar lythyrau clinigol, paratoi adroddiadau, gweinyddu cyffredinol. 4. Treulio amser gydag aelodau eraill y feddygfa a'r tîm gofal iechyd at ddibenion gofal a dysgu, e.e. nyrsys practis, nyrsys cymunedol, nyrsys sydd â rôl mewn rheoli clefydau cronig, derbynyddion, nyrsys brysbennu, ac ati. 5. Treulio amser gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill sy'n rhan o ofal sylfaenol, e.e. criwiau ambiwlans, nyrsys ysgol, bydwragedd, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion,	

cwnselwyr, i ddatblygu dealltwriaeth angenrheidiol o berthnasoedd gwaith ym maes gofal sylfaenol.

6. Treulio amser gyda gweithwyr proffesiynol ym maes dosbarthu a fferylliaeth, er mwyn ennill profiad yn y meysydd hyn, yn enwedig lle gallai hyfforddai fod â dyletswyddau sy'n gofyn am hyfforddiant i allu helpu gyda dyletswyddau dosbarthu, er enghraifft.

	Dydd Llun	**Dydd Mawrth**	**Dydd Mercher**	**Dydd Iau**	**Dydd Gwener**
yn y bore	SDL	Meddygfa	Meddygfa	Meddygfa	Meddygfa
Amser cinio		½ awr	½ awr	½ awr	½ awr
Amser cinio	Cyfarfod y Tîm Amlddisgyblaethol	Ymweliadau cartref / Adolygiad	Ymweliadau cartref / Adolygiad	Addysgu PPH Ymweliadau cartref / Adolygiad	Ymweliadau cartref / Adolygiad
Prynhawn		Meddygfa	Meddygfa	Meddygfa	Meddygfa
	09.00 – 1.00	09.00 – 6.30	09.00 – 6.30	09.00 – 6.30	09.00 – 6.30

Gweithgareddau clinigol y gellir eu hystyried yn addysgol

1. Yr amser a dreulir mewn gweithgareddau sy'n ymwneud ag asesu yn y gweithle a digwyddiadau dysgu o dan oruchwyliaeth.
2. Yr amser a dreulir yn dadansoddi recordiadau fideo o ymgynghoriadau, e.e. ymarferion Mini-CEX, lle mae amser yn cael ei neilltuo at y diben hwn.
3. Yr amser sy'n cael ei dreulio mewn clinigau arbenigol; yn enwedig pan fydd y rhain yn cael eu trefnu i ddod i gysylltiad â grwpiau cleifion a salwch nad ydynt yn rhan o raglen hyfforddai, e.e. clinigau cynllunio teulu, clinigau pigiadau cymalau.
4. Cymryd rhan mewn clinigau sy'n cael eu rhedeg gan feddygon teulu eraill – e.e. rhestrau mân lawdriniaethau, yn enwedig lle mae angen goruchwyliaeth uniongyrchol yn y broses i gael gwiriad ffurfiol o gymwyseddau gweithdrefnol.

Gweithgareddau anghlinigol sy'n addas ar gyfer sesiynau addysgol

1. Digwyddiadau addysgol wedi'u trefnu'n lleol, e.e. rhaglen addysgol sy'n benodol i'r hyfforddeion sylfaen a gynhelir gan y ddeoniaeth neu'r ymddiriedolaeth, gan gynnwys sesiynau "rhyddhau am hanner diwrnod" neu sesiynau "rhyddhau am ddiwrnod cyfan".
2. Gweithgareddau addysgol strwythuredig ac wedi'u cynllunio, e.e. tiwtorialau a gyflwynir yn y practis meddyg teulu.
3. Cyfarfodydd y tîm gofal sylfaenol.
4. Cyfarfodydd goruchwylwyr addysgol ac adolygiadau addysgol eraill.
5. Archwiliadau / prosiectau gwella ansawdd a gwaith ymchwil mewn ymarfer cyffredinol.
6. Astudio annibynnol.
7. Trafodaethau ar sail achosion wedi'u dewis o'r tu allan i'r amser adrodd yn ôl.
8. Gwasanaethau comisiynu.

9. Amser a dreulir gyda gweithwyr proffesiynol eraill sy'n darparu gwasanaethau nad ydynt yn cael eu hystyried yn rhan o wasanaethau meddygol cyffredinol, fel therapyddion amgen ac ategol. 10. Yr amser a dreulir gyda gweithwyr proffesiynol eraill sydd ag arbenigedd mewn materion eraill sy'n ymwneud ag agwedd ar ofal iechyd a gweinyddu marwolaethau, gweithwyr cymdeithasol ac ymgymerwyr. Dod i adnabod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol lleol a helpu'r feddygfa i gynnal cysylltiadau â'r gymuned leol.

Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Bridget Gwynne

Meddygaeth Gyffredinol / Clust, Trwyn a Gwddf (ENT)	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP123C
Band 2B - 50%	Rota 1:5
Mae'r adran Clust, Trwyn a Gwddf (ENT) yng Ngorllewin Cymru yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau ENT i boblogaeth wasgaredig, wledig yn bennaf. Mae tri meddyg FY2 ac 1 meddyg FY1 yn gweithio gyda hyfforddai llawfeddygol craidd a GPST ar y lefel ar alwad gyntaf. Cefnogir yr haen iau gan chwe meddyg ar lefel cofrestrydd, gan gynnwys un hyfforddai llawfeddygol uwch mewn ENT, a chwe llawfeddyg ENT ymgynghorol. Mae gennym ethos gweithio mewn tîm cryf iawn ac mae pob meddyg yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ac yn darparu cefnogaeth i gydweithwyr yn ôl yr angen. Mae'r dyletswyddau'n cynnwys rheoli cleifion mewnol dewisol ac achosion brys ar wardiau ENT a phediatrig oedolion. Mae'r rota ar alwad ar gyfer meddygon F2 yn cynnwys derbyniadau ENT brys tan 8:30pm yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau, a thraws-gyflenwi ar gyfer derbyniadau ENT ac wroleg dros nos. Mae'r meddyg F1 yn ennill profiad o reoli derbyniadau llawfeddygol cyffredinol ar alwad. Mae digon o feddygon iau yn ein hadran sy'n rhoi digon o gyfle i feddygon sylfaen fynd i glinigau cleifion allanol a threulio amser yn y theatr llawdriniaethau. Yn ogystal â chael y cymwyseddau cyffredinol sydd eu hangen ar bob meddyg, rydym yn annog ein hyfforddeion i wella eu profiad o reoli cyflyrau ENT cyffredin ymhlith cleifion allanol, ac mae llawer o feddygon sylfaen wedi gallu dechrau coflyfr o achosion llawfeddygol y maent wedi bod yn rhan ohonynt. Mae'r cyfnod hwn yn y theatr yn eu rhoi mewn sefyllfa dda wrth wneud cais am swyddi hyfforddi pellach. Mae cyfran sylweddol o'n grŵp cleifion yn ifancach nac 18 oed sy'n rhoi profiad pediatrig i'r meddygon hynny sy'n ystyried gyrfa mewn meddygaeth bediatrig neu ymarfer cyffredinol.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu'r Cwricwlwm Craidd F2 Diwrnodau Astudio F2 – 1 fesul cyfnod cylchdro Addysgu Adrannol Clust, Trwyn a Gwddf Addysgu ar achosion ENT ac wroleg brys ar ddechrau eu lleoliad i baratoi ar gyfer ymrwymiadau ar alwad. Cefnogaeth addysgol barhaus i feddygon yn eu gwaith bob dydd. Addysgu myfyrwyr meddygol sydd ar leoliad ac mae hyn yn rhoi cyfle i hyfforddeion sylfaen ddatblygu eu sgiliau addysgu eu hunain. Rydym yn cefnogi presenoldeb ein meddygon sylfaen yn llawn yn y diwrnodau hyfforddiant sylfaen rhanbarthol ac yn eu hannog i gwblhau cyrsiau ALS, ILS a, lle bo hynny'n berthnasol, cyrsiau PSA. Mae'r adran ENT hefyd wedi datblygu cysylltiadau

	agos ag adrannau eraill a gofal sylfaenol er mwyn trefnu diwrnodau blasu mewn arbenigeddau eraill pe bai angen.
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Mr Antony Howarth

Meddygaeth Gyffredinol / Gastroenteroleg	**Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli**
Rhaglenni:	FP18A
Band 1B - 40%	Rota 1:5
Mae'r swydd hon yn cynnig cyfle i fod yn rhan o dîm cyfeillgar a deinamig o ymgynghorwyr gastroenteroleg, dietegwyr a nyrsys arbenigol. Bydd yr hyfforddai'n cael cyfle i ddod i gysylltiad ag ystod eang o unigolion sydd â chyflyrau sy'n gysylltiedig â lwmina a hepatoleg, ac sy'n cael eu gweld fel cleifion mewnol yn Ysbyty'r Tywysog Philip, a chyfrannu'n weithredol at eu rheoli, gan gynnwys clefyd llidiol cymhleth y coluddyn, clefyd yr afu, malaenedd Gastroberfeddol a phatholegau uwch sy'n gysylltiedig â maeth. Bydd yr hyfforddai'n elwa o rowndiau ward rheolaidd o dan arweiniad meddyg ymgynghorol ac addysgu ar erchwyn y gwely a fydd yn meithrin gwybodaeth a rhesymu clinigol. Anogir pob aelod o'r tîm i chwilio am gyfleoedd addysgol, yn enwedig mynd i weld cleifion allanol i arsylwi a gweld cleifion eu hunain. Mae clinigau arbenigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn Ysbyty'r Tywysog Philip, gan gynnwys IBD cymhleth, clefyd yr afu sy'n cynnwys hepatitis feirysol, a gwiriadau ôl-drawsblaniadau afu, ochr yn ochr ag atgyfeiriadau gastroenteroleg cyffredinol. Bydd cyfle hefyd i fynd i'r adran endosgopi i arsylwi endosgopi gastroberfeddol uwch ac is, a fydd yn cynnwys therapiwteg. Mae disgwyl i bob hyfforddai fod yn gymwys i gyflawni parasentesis abdomenol erbyn iddynt gwblhau'r cyfnod cyswllt. Ochr yn ochr â'u dyletswyddau ward arferol, bydd y meddyg iau hefyd yn rhan o'r rota meddygol cyffredinol ac yn cael y cyfle i weld cleifion meddygol sy'n ddifrifol wael yn cael eu derbyn i'r uned asesu meddygol acíwt tra'n rhan o'r Tîm Achosion Brys Meddygol ac ymateb i alwadau thrombolysis strôc acíwt.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Dyddiol** Rowndiau Ward o dan arweiniad Meddyg Ymgynghorol **Wythnosol** Clwb Cyfnodolion Meddygol Addysgu FY2 Rowndiau Ward Mawr Addysgu Adrannol **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd Diwrnodau Addysgu'r Cwricwlwm FY2 (1 fesul cyfnod cylchdro)
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Ian Rees

Clust, Trwyn a Gwddf (ENT)	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP18B
Band 2B - 50%	Rota 1:5
Mae'r adran Clust, Trwyn a Gwddf (ENT) yng Ngorllewin Cymru yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau ENT i boblogaeth wasgaredig, wledig yn bennaf. Mae tri meddyg FY2 ac 1 meddyg FY1 yn gweithio gyda hyfforddai llawfeddygol craidd a GPST ar y lefel ar alwad gyntaf. Cefnogir yr	

haen iau gan chwe meddyg ar lefel cofrestrydd, gan gynnwys un hyfforddai llawfeddygol uwch mewn ENT, a chwe llawfeddyg ENT ymgynghorol. Mae gennym ethos gweithio mewn tîm cryf iawn ac mae pob meddyg yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ac yn darparu cefnogaeth i gydweithwyr yn ôl yr angen. Mae'r dyletswyddau'n cynnwys rheoli cleifion mewnol dewisol ac achosion brys ar wardiau ENT a phediatrig oedolion. Mae'r rota ar alwad ar gyfer meddygon F2 yn cynnwys derbyniadau ENT brys tan 8:30pm yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau, a thraws-gyflenwi ar gyfer derbyniadau ENT ac wroleg dros nos. Mae'r meddyg F1 yn ennill profiad o reoli derbyniadau llawfeddygol cyffredinol ar alwad. Mae digon o feddygon iau yn ein hadran sy'n rhoi digon o gyfle i feddygon sylfaen fynd i glinigau cleifion allanol a threulio amser yn y theatr llawdriniaethau. Yn ogystal â chael y cymwyseddau cyffredinol sydd eu hangen ar bob meddyg, rydym yn annog ein hyfforddeion i wella eu profiad o reoli cyflyrau ENT cyffredin ymhlith cleifion allanol, ac mae llawer o feddygon sylfaen wedi gallu dechrau coflyfr o achosion llawfeddygol y maent wedi bod yn rhan ohonynt. Mae'r cyfnod hwn yn y theatr yn eu rhoi mewn sefyllfa dda wrth wneud cais am swyddi hyfforddi pellach. Mae cyfran sylweddol o'n grŵp cleifion yn ifancach nac 18 oed sy'n rhoi profiad pediatrig i'r meddygon hynny sy'n ystyried gyrfa mewn meddygaeth bediatrig neu ymarfer cyffredinol.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu'r Cwricwlwm Craidd F1 Addysgu Adrannol Clust, Trwyn a Gwddf Addysgu ar achosion ENT ac wroleg brys ar ddechrau eu lleoliad i baratoi ar gyfer ymrwymiadau ar alwad. Cefnogaeth addysgol barhaus i feddygon yn eu gwaith bob dydd. Mae gennym fyfyrwyr meddygol o ysgolion meddygol Caerdydd ac Abertawe ar leoliad ac mae hyn yn rhoi cyfle i hyfforddeion sylfaen ddatblygu eu sgiliau addysgu eu hunain. Rydym yn cefnogi presenoldeb ein meddygon sylfaen yn llawn yn y diwrnodau hyfforddiant sylfaen rhanbarthol ac yn eu hannog i gwblhau cyrsiau ALS, ILS a, lle bo hynny'n berthnasol, cyrsiau PSA. Mae'r adran ENT hefyd wedi datblygu cysylltiadau agos ag adrannau eraill a gofal sylfaenol er mwyn trefnu diwrnodau blasu mewn arbenigeddau eraill pe bai angen.
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Mr Antony Howarth

Obstetreg a Gynaecoleg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP18C
Band 2B - 50%	Rota 1:11, sy'n cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd
Mae hyfforddeion sylfaen yn gallu ymuno â'r tîm prysur yn yr adran Obstetreg a Gynaecoleg, lle mae 3,200 o esgoriadau mamolaeth bob blwyddyn a 6,000-8,000 o atgyfeiriadau gynaecoleg. Yn ogystal, mae digon o gyfleoedd i ennill profiad ym maes achosion obstetrig a gynaecoleg brys ar y Ward Geni, Ward Cyn-enedigol / Ôl-enedigol, Ward Gynecoleg, rhestr Cesaraidd ddewisol a theatr gynecoleg ddewisol. Mae cyfle i fynd i glinigau cleifion allanol ar gyfer obstetreg a gynaecoleg i ddatblygu sgiliau clinigol yn yr arbenigedd, fel cael hanes, archwiliadau clinigol, dehongli canlyniadau a llunio cynlluniau rheoli. Mae cyfle hefyd i fynd i glinigau diddordeb arbennig fel hysterosgopi, colposgopi, wrodynameg, beichiogrwydd cynnar ac uned asesu dydd cyn-enedigol, yn dibynnu ar yr hyn sydd ar gael.	

Pan fydd Meddygon Sylfaen ar alwad yn ystod y nos, cânt eu cefnogi gan yr Ymarferwyr Nyrsio nos, yn ogystal â chael eu goruchwylio'n uniongyrchol gan Gofrestrydd. Mae Meddygon Sylfaen yn mynychu rowndiau'r ward, sy'n cael eu goruchwylio gan uwch aelodau'r tîm. Hefyd, maent yn cael cyfle i fynychu cyfarfod y Tîm Amlddisgyblaethol a chyfarfodydd Rheoli Risg. *Oherwydd llwybrau Covid, efallai y bydd gofyniad parhaus i feddygon F1 sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili ymgymryd â dyletswyddau yn Ysbyty'r Tywysog Philip gan mai dyma'r safle dewisol yn Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn hefyd yn golygu y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd addysgol a hyfforddiant.*	
Cyfarfodydd Addysgol:	Mae gan yr adran amgylchedd addysgu rhagorol gyda sesiynau addysgu adrannol rheolaidd bob prynhawn Mercher. Mae cyfle i wneud cyflwyniadau ac, ar yr un pryd, cymryd rhan mewn archwiliadau a gweithgareddau addysgol eraill. Rhyddheir hyfforddeion sylfaen (F2) yn rheolaidd o sesiynau addysgu F2 wythnosol ar gyfer eu diwrnodau astudio sylfaen (1 fesul cyfnod cylchdro). Mae gan yr adran Fyfyrwyr Meddygol o Gaerdydd ac Abertawe, ac anogir Meddygon Sylfaen i gymryd rhan yn eu haddysgu. Mae hyfforddiant PROMPT misol ac mae Meddygon Sylfaen yn cael cyfle i fynychu'r rhain hefyd.
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Islam Abdelrahman

Meddygaeth Gyffredinol / Diabetes ac Endocrinoleg	**Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli**
Rhaglenni:	FP21A
Band 2B-50%	Rota 1:26
Mae'r Tîm yn cynnwys 2 x SPR, 2 x SHO, 1 x FY2, ac 1 x FY1. Disgwylir i feddygon iau gyrraedd ychydig yn gynharach (8.45am) i ddiweddaru'r rhestr ar gyfer rowndiau'r ward. Gall y meddyg sy'n dod i mewn am 08.45 adael am 16.45. Mae rownd y ward fel arfer yn dechrau am 9am. Mae holl aelodau'r tîm yn mynychu rownd y ward ac yn ceisio cwblhau tasgau brys wrth iddynt fynd o gwmpas a diweddaru'r bwrdd gyda thasgau i'r nyrsys. Mae hyfforddeion wedyn yn parhau gyda thasgau, yn mynd ar drywydd canlyniadau ac yn adolygu cleifion yn ôl yr angen tan 5pm. Mae'n bwysig trosglwyddo unrhyw ganlyniadau prawf brys neu gleifion sâl i SHO/SPR gyda'r nos rhwng 4.30pm a 5pm. Disgwylir, ar ddechrau'r cyfnod cylchdro neu, os yw'n bosibl, cyn dechrau'r cyfnod cylchdro, i rannu unrhyw wyliau blynyddol neu absenoldeb astudio arfaethedig a gynlluniwyd gyda'r tîm a chydlynydd y rota. Bydd hyn yn cael ei ganiatáu yn unol â lefelau staffio. Croesewir syniadau ar gyfer archwilio a datblygu gwasanaethau, yn ogystal â chymryd rhan yn y clwb cyfnodolion. Bydd cyfle i fynd i glinigau diabetes a chleifion allanol endocrin os oes gennych ddiddordeb. Ar alwad, yn unol â'r rota gyda goruchwyliaeth uwch Ar alwad, yn unol â'r rota gyda goruchwyliaeth uwch.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Dyddiol** Rowndiau Ward o dan arweiniad Meddygon Ymgynghorol / Rowndiau Ward o dan arweiniad Meddygon Iau

	Wythnosol Cyfarfod Meddygol Addysgu FY2 Rowndiau Ward Mawr Addysgu Adrannol **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd Diwrnodau Addysgu'r Cwricwlwm FY2 (1 fesul cyfnod cylchdro)
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Akhila Mallipedhi

Meddygaeth Frys	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP21B
Band 1A - 50%	Rota 1:5
Asesu a rheoli mân gyflwyniadau a chyflwyniadau difrifol i'r Uned Achosion Brys o dan Oruchwyliaeth Glinigol ar y safle. Bydd hyfforddeion yn cyfrannu at archwiliadau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys, gofal plant ac Asesiadau Gwybyddol ymhlith yr Henoed.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu'r Cwricwlwm Craidd F2 Addysgu yn yr Adran Achosion Brys **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd Diwrnodau Astudio F2 – 3 y flwyddyn
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Nigel Waghorne

Arbenigol/Gofal yr Henoed/Strôc/Clefyd Parkinson/Adsefydlu	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP21C
Band 2B-50%	Rota 1:22
Mae'r lleoliad hwn yn rhoi cyfle i'r hyfforddai ddysgu sut i reoli cleifion strôc acíwt a'u hadsefydlu, ac mae hefyd yn rhoi cyfle iddynt ddysgu am reoli clefyd Parkinson, dysgu egwyddorion adsefydlu, a datblygu profiad o reoli cleifion sy'n ddifrifol wael sy'n cyflwyno fel achosion brys. Mae'r adran yn annog gwaith tîm amlddisgyblaethol gweithredol, sy'n galluogi'r hyfforddai i ddatblygu perthnasoedd rhyngbersonol a bod yn aelod effeithiol o dîm. Bydd yr adran yn darparu cyfleoedd ar gyfer archwiliadau a gweithdrefnau diagnostig. Mae'r Tîm yn cynnwys 1 meddyg gradd canol, 3 meddyg gradd SHO, 1 meddyg FY1 ac 1 meddyg FY2. Disgwylir i feddygon sylfaen fynychu rowndiau ward a chwblhau tasgau pan fydd rownd y ward yn gorffen. Maent hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaethol yn y wardiau strôc ac adsefydlu. Mae'r meddygon yn treulio 2 fis o'r cyfnod cylchdro yn y ward strôc a 2 fis arall yn y ward adsefydlu.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu'r Cwricwlwm Craidd F2 Cyfarfod Meddygol – amser cinio dydd Llun

	Mae'r sesiynau addysgu hyn yn ychwanegol at yr addysgu yn ystod rowndiau ward ac yn ystod rowndiau ar ôl derbyn. Anogir meddygon iau i fynychu clinigau (PD, TIA, Meddygaeth Gyffredinol ac apwyntiadau dilynol ar ôl strôc) fel arsylwyr, sy'n darparu cyfleoedd dysgu pellach. Mae'r meddygon iau yn cael cyfle i arsylwi ac ymgymryd â gweithdrefnau arferol o dan oruchwyliaeth. Mae'r hyfforddai hefyd yn cael cyfle i gymryd rhan yng ngweithgareddau archwilio'r adran.
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Pagadala Sridhar

Clust, Trwyn a Gwddf (ENT)	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP24A
Band 2B - 50%	Rota 1:5
Mae'r adran Clust, Trwyn a Gwddf (ENT) yng Ngorllewin Cymru yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau ENT i boblogaeth wasgaredig, wledig yn bennaf. Mae tri meddyg FY2 ac 1 meddyg FY1 yn gweithio gyda hyfforddai llawfeddygol craidd a GPST ar y lefel ar alwad gyntaf. Cefnogir yr haen iau gan chwe meddyg ar lefel cofrestrydd, gan gynnwys un hyfforddai llawfeddygol uwch mewn ENT, a chwe llawfeddyg ENT ymgynghorol. Mae gennym ethos gweithio mewn tîm cryf iawn ac mae pob meddyg yn gweithio'n agos gyda'i gilydd ac yn darparu cefnogaeth i gydweithwyr yn ôl yr angen. Mae'r dyletswyddau'n cynnwys rheoli cleifion mewnol dewisol ac achosion brys ar wardiau ENT a phediatrig oedolion. Mae'r rota ar alwad ar gyfer meddygon F2 yn cynnwys derbyniadau ENT brys tan 8:30pm yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau, a thraws-gyflenwi ar gyfer derbyniadau ENT ac wroleg dros nos. Mae'r meddyg F1 yn ennill profiad o reoli derbyniadau llawfeddygol cyffredinol ar alwad. Mae digon o feddygon iau yn ein hadran sy'n rhoi digon o gyfle i feddygon sylfaen fynd i glinigau cleifion allanol a threulio amser yn y theatr llawdriniaethau. Yn ogystal â chael y cymwyseddau cyffredinol sydd eu hangen ar bob meddyg, rydym yn annog ein hyfforddeion i wella eu profiad o reoli cyflyrau ENT cyffredin ymhlith cleifion allanol, ac mae llawer o feddygon sylfaen wedi gallu dechrau coflyfr o achosion llawfeddygol y maent wedi bod yn rhan ohonynt. Mae'r cyfnod hwn yn y theatr yn eu rhoi mewn sefyllfa dda wrth wneud cais am swyddi hyfforddi pellach. Mae cyfran sylweddol o'n grŵp cleifion yn ifancach nac 18 oed sy'n rhoi profiad pediatrig i'r meddygon hynny sy'n ystyried gyrfa mewn meddygaeth bediatrig neu ymarfer cyffredinol.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu'r Cwricwlwm Craidd F1 Addysgu Adrannol Clust, Trwyn a Gwddf Addysgu ar achosion ENT ac wroleg brys ar ddechrau eu lleoliad i baratoi ar gyfer ymrwymiadau ar alwad. Cefnogaeth addysgol barhaus i feddygon yn eu gwaith bob dydd. Mae gennym fyfyrwyr meddygol o ysgolion meddygol Caerdydd ac Abertawe ar leoliad ac mae hyn yn rhoi cyfle i hyfforddeion sylfaen ddatblygu eu sgiliau addysgu eu hunain. Rydym yn cefnogi presenoldeb ein meddygon sylfaen yn llawn yn y diwrnodau hyfforddiant sylfaen rhanbarthol ac yn eu hannog i gwblhau cyrsiau ALS, ILS a, lle bo hynny'n berthnasol, cyrsiau PSA. Mae'r adran ENT hefyd wedi datblygu cysylltiadau

	agos ag adrannau eraill a gofal sylfaenol er mwyn trefnu diwrnodau blasu mewn arbenigeddau eraill pe bai angen.
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Mr Antony Howarth

Meddygaeth Frys	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP24B
Band 1A - 50%	Rota 1:5
Asesu a rheoli mân gyflwyniadau a chyflwyniadau difrifol i'r Uned Achosion Brys o dan Oruchwyliaeth Glinigol ar y safle. Bydd hyfforddeion yn cyfrannu at archwiliadau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys, gofal plant ac Asesiadau Gwybyddol ymhlith yr Henoed.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu'r Cwricwlwm Craidd F2 Addysgu yn yr Adran Achosion Brys **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd Diwrnodau Astudio F2 – 3 y flwyddyn
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Nigel Waghorne

Meddygaeth Gyffredinol / Anadlol	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP24C
Band 2B - 50%	Rota 1:22
Darpariaeth ddyddiol ar gyfer ward Anadlol 19 gwely, ynghyd â hyd at 5 o gleifion mewn ward allanol, gan weithio fel rhan o dîm o 1 x F1, 1 x F2, 1 x IMT, 1 x Cymrawd Clinigol, 1 x Meddyg Arbenigol, 2 x SR a 4 x meddyg ymgynghorol. Mynychu a chyfrannu at ddwy rownd ward o dan arweiniad meddygon ymgynghorol bob wythnos ac un rownd ward o dan arweiniad meddygon gradd canol. Clercio ac asesu cleifion newydd sy'n dod i'r ward ac adolygu cleifion ar y ward yn ddyddiol. Clercio a pharatoi achosion dydd sy'n mynychu'r ward ar gyfer clinig eisbilennol, biopsïau CT o dan arweiniad a thoracosgopi. Cymryd rhan yn y rhestr thoracosgopi wythnosol mewn cylchdro gyda staff iau eraill ar y tîm. Cymryd rhan ar rota derbyniadau meddygol annewisol acíwt Ysbyty Cyffredinol Glangwili. Trefnir gwyliau blynyddol ac absenoldeb astudio gyda'r tîm ehangach i sicrhau bod digon o staff ar gael, a thrafodir hynny cyn gynted â phosibl ar ôl dechrau'r swydd ac, unwaith y cytunir ar hynny, rhoddir gwybod i'r ysgrifennydd sy'n cadw cynllunydd wal o'r holl wyliau staff.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F2 ac 1 x diwrnod astudio F2 fesul cyfnod cylchdro Cyfarfod adran feddygol wythnosol – darperir cinio Sesiwn addysgu Meddygaeth Anadlol – darperir cinio Dysgu wrth weithio gan feddygon gradd canol ac ymgynghorwyr, gyda chyfleoedd ar gyfer allsugno eisbilennol, USS a mewnosod draen rhyngasennol.

	Cyfleoedd i ddysgu gan nyrsys anadlol arbenigol, sbirometreg, NIV, techneg a dethol anadlydd. Cyfleoedd i brofi ystod eang o feddygaeth anadlol drwy ward ac Adran Cleifion Allanol, a sawl is-arbenigedd megis TB, canser yr ysgyfaint, asthma difrifol, clefyd eisbilennol, yn ogystal â dod i gysylltiad â broncosgopi, gan gynnwys uwchsain endobronciol a thoracosgopi. Mae adsefydlu ysgyfeintiol ar gael ar y safle hefyd.
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Leanne Griffin

Meddygaeth Gyffredinol / Gastroenteroleg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP115A
Band 2B-50%	Rota 1:22
Mae'r swydd hon yn cynnig cyfle i fod yn rhan o dîm cyfeillgar a deinamig o ymgynghorwyr gastroenteroleg, dietegwyr a nyrsys arbenigol. Bydd yr hyfforddai'n cael cyfle i ddod i gysylltiad ag ystod eang o unigolion sydd â chyflyrau sy'n gysylltiedig â lwmina a hepatoleg, ac sy'n cael eu gweld fel cleifion mewnol yn Ysbyty'r Tywysog Philip, a chyfrannu'n weithredol at eu rheoli, gan gynnwys clefyd llidiol cymhleth y coluddyn, clefyd yr afu, malaenedd Gastroberfeddol a phatholegau uwch sy'n gysylltiedig â maeth. Bydd yr hyfforddai'n elwa o rowndiau ward rheolaidd o dan arweiniad meddyg ymgynghorol ac addysgu ar erchwyn y gwely a fydd yn meithrin gwybodaeth a rhesymu clinigol. Anogir pob aelod o'r tîm i chwilio am gyfleoedd addysgol, yn enwedig mynd i weld cleifion allanol i arsylwi a gweld cleifion eu hunain. Mae clinigau arbenigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn Ysbyty'r Tywysog Philip, gan gynnwys IBD cymhleth, clefyd yr afu sy'n cynnwys hepatitis feirysol, a gwiriadau ôl-drawsblaniadau afu, ochr yn ochr ag atgyfeiriadau gastroenteroleg cyffredinol. Bydd cyfle hefyd i fynd i'r adran endosgopi i arsylwi endosgopi gastroberfeddol uwch ac is, a fydd yn cynnwys therapiwteg. Mae disgwyl i bob hyfforddai fod yn gymwys i gyflawni parasentesis abdomenol erbyn iddynt gwblhau'r cyfnod cyswllt. Yn ogystal, bydd y meddyg iau hefyd yn rhan o'r rota meddygol cyffredinol ac yn cael y cyfle i weld cleifion meddygol sy'n ddifrifol wael yn cael eu derbyn i'r uned asesu meddygol acíwt tra'n rhan o'r Tîm Achosion Brys Meddygol ac ymateb i alwadau thrombolysis strôc acíwt.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Dyddiol** Rowndiau Ward o dan arweiniad Meddyg Ymgynghorol **Wythnosol** Addysgu F1 Cyfarfod Meddygol **Misol** Cynhelir cyfarfodydd archwilio ysbyty cyfan yn rheolaidd
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Dafydd Bowen

Pediatreg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP115B
Band 2B - 50%	Rota 1:12
Mae'r swydd hon yn rhoi digon o gyfle i hyfforddeion ennill y cymwyseddau sy'n angenrheidiol i gwblhau FY2. Ar ben hynny, mae cyfle i gael profiad o reoli plant a phobl ifanc sy'n ddifrifol wael ac	

wedi'u hanafu, yn y lleoliad brys a'r lleoliad dewisol. Mae'r rota dyletswydd yn seiliedig ar ddiwrnodau arferol, diwrnodau hir a nosweithiau. Anogir hyfforddeion i fynychu llawer o weithgareddau clinigol eraill, gan gynnwys CAMHS, ENT Arbenigol, Offthalmoleg a chlinigau trydyddol. Darperir cefnogaeth glinigol ac addysgol gan y pediatregwyr ymgynghorol. Mae rota 1 mewn 12 ar gyfer yr uned asesu pediatrig, y ward cleifion mewnol, y ward ôl-enedigol, archwiliadau babanod, esgoriadau, SCBU ac OPD. Mae gennym 8 pediatregydd ymgynghorol, pob un â diddordeb arbenigol. Rydym ni'n darparu gofal newydd enedigol Lefel 1+ ac mae gennym 4 gwely newydd enedigol HDU. Rydym yn darparu gofal i blant a phobl ifanc 0-16 oed ac mae gennym wasanaethau POSCU (oncoleg bediatrig). Yn ogystal, mae gennym 3 gwely HDU Pediatrig. Mae 3 meddyg ymgynghorol yn gofalu am glinigau pediatreg cymunedol ar wahân. Rydym hefyd yn darparu profiad o ddiogelu plant. Rydym yn cynnal arholiadau clinigol MRCPCH/DCH yn rheolaidd, ac mae 2 ymgynghorydd yn arholwyr coleg. Mae'n werth nodi bod 1-2 o feddygon iau wedi llwyddo i gael hyfforddiant pediatrig rhagdro bob blwyddyn.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F2 ac 1 x diwrnod astudio F2 fesul cyfnod cylchdro Rowndiau Ward Mawr Pediatrig Cyflwyniad addysgu SHO/Meddygaeth seiliedig ar dystiolaeth Addysgu Fforwm Agored wythnosol
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Atheer Abdulameer

Haematoleg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP115C
Band 2B - 50%	Rota 1:22
Mae'r meddyg F2 yn rhan o dîm sy'n cynnwys dau haematolegydd ymgynghorol, arbenigwr cyswllt, meddyg graddfa staff, meddyg F1 a nyrs arbenigol haematoleg. Cynhelir rowndiau ward o dan arweiniad meddyg ymgynghorol bob dydd Llun a dydd Iau. Mae'r tîm hefyd yn gyfrifol am gleifion gofal dydd sy'n ymweld â'r ysbyty ar gyfer cemotherapi, gwaed a thrallwysiadau cynnyrch gwaed yn yr uned cemotherapi a'r ysbyty dydd.	
Cyfarfodydd Addysgol:	Mae amser addysgu wedi'i ddiogelu i fynychu cyfarfodydd meddygol wythnosol ac addysgu F2 wythnosol. Cynhelir cyfarfodydd archwilio bob 2 fis. Mae prosiectau archwilio a gwella ansawdd yn cael eu hannog a'u cefnogi'n gryf fel rhan o'r swydd hon. Mae'r gweithdrefnau y gellir eu dysgu, ar wahân i'r cymwyseddau craidd, yn cynnwys biopsi mêr esgyrn, tynnu cathetr canolog wedi'i fewnosod yn ymylol (PICC) a llinell Hickman. Mae cyfle hefyd i gael profiad o wasanaethau labordy, gan gynnwys adrodd ar gaenennau gwaed a mêr esgyrn.

Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Saran Nicholas

Gofal Lliniarol / Haematoleg	**Ysbyty'r Tywysog Philip, Llanelli**
Rhaglenni:	FP132A
Band 2B-50%	Rota 1:7
Mae'r meddyg F2 yn rhan o dîm sy'n cynnwys haematolegydd ymgynghorol, meddyg F1 a nyrs arbenigol haematoleg. Mae cleifion mewnol yn cael eu gweld bob dydd ar rownd ward o dan arweiniad meddyg ymgynghorol. Mae'r tîm hefyd yn gyfrifol am gleifion gofal dydd sy'n ymweld â'r ysbyty ar gyfer cemotherapi, gwaed a thrallwysiadau cynnyrch gwaed yn yr uned cemotherapi a'r ysbyty dydd. Gofal Lliniarol: Mae'r gwasanaeth gofal lliniarol yn cynnwys meddyg ymgynghorol, arbenigwr cyswllt, cofrestrydd a meddyg F1, ac mae hosbis 7 gwely ar y safle. Mae'r tîm hefyd yn cynnal rowndiau ward rheolaidd, gan ddarparu cyngor am gleifion mewnol meddygol. Mae cyfleoedd dysgu rhagorol i ennill y cymwyseddau sy'n angenrheidiol ar gyfer blwyddyn FY2. Mae'r gweithdrefnau y gellir eu dysgu, ar wahân i'r cymwyseddau craidd, yn cynnwys biopsi mêr esgyrn, tynnu cathetr canolog wedi'i fewnosod yn ymylol (PICC) a llinell Hickman. Mae cyfle hefyd i gael profiad o wasanaethau labordy, gan gynnwys adrodd ar gaenennau gwaed a mêr esgyrn.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Dyddiol** Rowndiau ward **Wythnosol** Cyfarfod Meddygol Addysgu FY2 **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd Diwrnodau Addysgu'r Cwricwlwm FY2
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Helen Fielding

Meddygaeth Frys	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP132B
Band 1A - 50%	Rota 1:5
Asesu a rheoli mân gyflwyniadau a chyflwyniadau difrifol i'r Uned Achosion Brys o dan Oruchwyliaeth Glinigol ar y safle. Bydd hyfforddeion yn cyfrannu at archwiliadau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys, gofal plant ac Asesiadau Gwybyddol ymhlith yr Henoed.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu'r Cwricwlwm Craidd F2 Addysgu yn yr Adran Achosion Brys **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd Diwrnodau Astudio F2 – 3 y flwyddyn
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Nigel Waghorne

Trawma ac Orthopedeg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP132C
Band 1B - 40%	Rota 1:11, diwrnodau ar alwad a sifftiau nos. Trawma ac orthopedig yn unig, dim traws-gyflenwi gydag arbenigeddau eraill
Mae Ysbyty Glangwili yn ysbyty cyffredinol prysur sy'n derbyn cleifion trawma cyffredinol ac arbenigol o bob rhan o'r bwrdd iechyd. Caiff 350-400 o doriadau clun eu derbyn bob blwyddyn. Ni yw'r uned drawma ddynodedig ar gyfer Hywel Dda yn Rhwydwaith Trawma Mawr De Cymru. Mae 2 feddyg F2, 8 hyfforddai craidd ar raddfa Ymddiriedolaeth, ac ymarferydd sgrybs llawfeddygol ar rota lefel SHO. Mae 10 meddyg gradd canol, gan gynnwys 2 hyfforddai llawfeddygol uwch ac 11 meddyg ymgynghorol, ar alwad 1:8. Mae gennym hefyd 3 nyrs trawma arbenigol a meddyg ymgynghorol sydd â diddordeb mewn gofal yn ystod y llawdriniaeth. Mae gennym gysylltiadau cryf â phrifysgolion Abertawe a Chaerdydd ac rydym yn annog cyfranogiad mewn gweithgareddau ymchwil a gwella ansawdd. Mae ein hadran yn sicrhau goruchwyliaeth glinigol ac addysgol briodol ar gyfer yr holl staff meddygol iau ac mae'r swydd hon yn paratoi pob meddyg iau yn dda ar gyfer pa bynnag raglen hyfforddi y dymunant wneud cais amdani.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu'r Cwricwlwm Craidd F2 (1 awr) **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd Cyfarfodydd Adran Trawma ac Orthopedig (4 awr) Addysgu Adrannol (2 awr) Diwrnodau Astudio F2 (3 y flwyddyn)
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Mr Steffan Bajada

Trawma ac Orthopedeg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP06A
Band 1B - 40%	Rota 1:11, diwrnodau ar alwad a sifftiau nos. Trawma ac orthopedig yn unig, dim traws-gyflenwi gydag arbenigeddau eraill
Mae Ysbyty Glangwili yn ysbyty cyffredinol prysur sy'n derbyn cleifion trawma cyffredinol ac arbenigol o bob rhan o'r bwrdd iechyd. Caiff 350-400 o doriadau clun eu derbyn bob blwyddyn. Ni yw'r uned drawma ddynodedig ar gyfer Hywel Dda yn Rhwydwaith Trawma Mawr De Cymru. Mae 2 feddyg F2, 8 hyfforddai craidd ar raddfa Ymddiriedolaeth, ac ymarferydd sgrybs llawfeddygol ar rota lefel SHO. Mae 10 meddyg gradd canol, gan gynnwys 2 hyfforddai llawfeddygol uwch ac 11 meddyg ymgynghorol, ar alwad 1:8. Mae gennym hefyd 3 nyrs trawma arbenigol a meddyg ymgynghorol sydd â diddordeb mewn gofal yn ystod y llawdriniaeth. Mae gennym gysylltiadau cryf â phrifysgolion Abertawe a Chaerdydd ac rydym yn annog cyfranogiad mewn gweithgareddau ymchwil a gwella ansawdd. Mae ein hadran yn sicrhau goruchwyliaeth glinigol ac addysgol briodol ar gyfer yr holl staff meddygol iau ac mae'r swydd hon yn paratoi pob meddyg iau yn dda ar gyfer pa bynnag raglen hyfforddi y dymunant wneud cais amdani.	

Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu'r Cwricwlwm Craidd F2 (1 awr) **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd Cyfarfodydd Adran Trawma ac Orthopedig (4 awr) Addysgu Adrannol (2 awr) Diwrnodau Astudio F2 (3 y flwyddyn)
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Mr Owain Ennis

Meddygaeth Frys	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP06B
Band 1A - 50%	Rota 1:5
Asesu a rheoli mân gyflwyniadau a chyflwyniadau difrifol i'r Uned Achosion Brys o dan Oruchwyliaeth Glinigol ar y safle. Bydd hyfforddeion yn cyfrannu at archwiliadau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys, gofal plant ac Asesiadau Gwybyddol ymhlith yr Henoed.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu'r Cwricwlwm Craidd F2 Addysgu yn yr Adran Achosion Brys **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd Diwrnodau Astudio F2 – 3 y flwyddyn
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Nigel Waghorne

Meddygaeth Gyffredinol / Diabetes ac Endocrinoleg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP06C
Band 2B - 50%	Rota 1:11
Mae'r Adran yn darparu cyfleoedd hyfforddi rhagorol mewn Meddygaeth Gyffredinol yn ogystal â Diabetes ac Endocrinoleg. Mae'r Tîm yn cynnwys 3 Meddyg Ymgynghorol, 1 SpR, 1 IMT, 1 F2, 1 F1, 1 Cymrawd Clinigol. 4 Nyrsys Diabetig Arbenigol. Mae'r dyletswyddau'n cynnwys rheoli cleifion mewnol, bod yn bresennol ar rowndiau ward o dan arweiniad meddygon ymgynghorol (2-3 yr wythnos), cwblhau crynodebau rhyddhau, addysgu myfyrwyr meddygol yn ôl cyfarwyddyd, mynychu cyfarfodydd clinigol a chlinigau cleifion allanol. Cynhelir cyfarfodydd clinigol mewn Diabetes ac Endocrinoleg ac mewn Meddygaeth Gyffredinol. Disgwylir i feddygon sylfaen gyflwyno achosion clinigol a chyfrannu at drafodaeth y clwb cyfnodolion. Anogir holl aelodau'r tîm i ymgymryd â Phrosiect Gwella Ansawdd neu archwiliad yn ystod yr aseiniad. Bydd y meddygon F2 yn cael eu hyfforddi mewn rheoli cyflwyniadau acíwt mewn Diabetes ac Endocrinoleg yn ystod eu profiad ar y ward. Bydd profiad o reoli diabetes ac anhwylderau endocrin yn cael ei ennill mewn clinigau cleifion allanol. Bydd profiad o reoli cleifion sy'n ddifrifol	

wael yn cael ei ennill wrth fynychu rowndiau ward ôl-dderbyn dyddiol meddygon ymgynghorol ar y wardiau derbyn. Mae'r dyletswyddau'n cynnwys goruchwylio a chynorthwyo'r meddyg F1 i reoli cleifion mewnol o ddydd i ddydd, cyswllt rhwng y meddyg F1 a'r uwch swyddogion. Mae Rownd Bwrdd dyddiol y mae angen i'r F2 ei mynychu, a rhestr fanwl o'r cleifion mewnol y mae'n rhaid eu paratoi cyn rownd y ward. Bydd cyfle i ddod i gysylltiad ag amrywiaeth o glinigau cleifion allanol ac, os oes diddordeb, gweithio gydag aelodau amlddisgyblaethol o'r tîm Diabetes ac Endocrinoleg, gan gynnwys nyrsys arbenigol, dietegwyr a phodiatregwyr.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Dyddiol** Rowndiau Ward - Rownd Ward o dan arweiniad Meddyg Ymgynghorol ddwywaith yr wythnos **Wythnosol** Addysgu'r Cwricwlwm Craidd F2 Diwrnodau astudio F2 (1 i bob cyfnod cylchdro) Cyfarfod Meddygol
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Stamiatos Zouras

Meddygaeth Gyffredinol / Cardioleg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP15A
Band 2B-50%	Rota 1:11
Mae'r meddyg F2 yn rhan annatod o'r tîm Cardioleg yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili, gan weithio gyda meddyg F1, Cymrawd Clinigol/IMT/ANP (2 swydd), SPR a meddyg arbenigol. Mae'r tîm yn cael ei arwain gan 4 cardiolegydd sy'n rhoi mewnbwn dyddiol i'r wardiau a'r CCU. Mae'r tîm yn gofalu am 6 chlaf yn CCU, 6 yn yr uned cardiaidd camu i lawr a 10 ar Ward Tywi (gyda chleifion allanol achlysurol). Mae'r meddygon iau yn cael cyfle i dreulio amser yn ennill profiad o ddehongli ECG, ecocardiograffeg sylfaenol, rheoli sylfaenol ac angiograffeg. Mae mwy o feddygon uwch wedi cael eu hyfforddi mewn rhai o'r technegau uwch ac anogir y meddygon iau i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r rhain. Mae meddygon F2 yn cymryd rhan mewn rota 1:11 ar alwad, lle byddant ar alwad gyda naill ai meddyg F1 neu feddyg F2 a meddyg gradd canol. Mae meddyg 'cyfnos' yn helpu yn ystod y nos. Yn ogystal, bydd nyrs nos wrth law i ddarparu cymorth yn ystod y nos. Mae ymgynghorydd yn bresennol rhwng 8am ac 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac am lawer o'r penwythnos. Mae ymgynghorydd ar alwad o'i gartref bob amser, ac mae ar gael 24/7. Mae'r meddygon F2 yn cael eu cefnogi i fynychu digwyddiadau addysgol yn yr adran ôl-raddedig ac yn cael cyngor a chefnogaeth gyrfaoedd gan yr ymgynghorwyr. Maent hefyd yn cael eu cefnogi i gyflawni gofynion y cwricwlwm.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F2 Cyfarfod yr Adran Feddygol Diwrnodau astudio F2 (1 i bob cyfnod cylchdro)
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Eiry Edmunds

Ymarfer Cyffredinol / Llanelli	**Llwynhendy, Llanelli**
Rhaglenni:	FP15B
Band 1B 40%	Rota 1:7
• Ymgynghori â chleifion yn y feddygfa, ymweliadau cartref a dros y ffôn. • Gweithio gydag aelodau eraill o'r tîm, gan gynnwys Cofrestryddion Ymarfer Cyffredinol a Fferyllwyr o dan Hyfforddiant. • Ymgysylltu â chyfarfodydd yn y feddygfa (busnes, Tîm Amlddisgyblaethol, gofal lliniarol, amddiffyn plant ac ati). • Ymgysylltu â systemau rhagnodi, gan gynnwys presgripsiynau amlroddadwy a gweithio gyda Fferyllydd y Feddygfa. • Sesiwn Dysgu Hunangyfeiriedig Wythnosol, o dan arweiniad yr hyfforddai ac y cytunwyd arni gyda'r goruchwylydd addysg, gyda digon o gyfleusterau ar gyfer dysgu ar y safle ac ystafell hyfforddi bwrpasol gyda chymorth TG. • Gall gynnwys dysgu ar y safle, mynd i glinigau mewnol, neu glinigau ysbyty neu wasanaethau cymunedol. • Byddai'n fanteisiol petai ymgeiswyr sy'n gwneud cais yn berchen ar gar ac yn gallu ei yrru.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Dyddiol** Ymgynghori yn y feddygfa Ymweliadau Cartref/Adolygiad **Wythnosol** Addysgu FY2 Cyfarfod y Tîm Amlddisgyblaethol a Thrafodaethau Achos **Misol** Mynediad Hawdd i Ysbyty'r Tywysog Philip ar gyfer addysgu a hyfforddiant pwrpasol Diwrnodau Addysgu'r Cwricwlwm FY2
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Rachel Devonald Dr Mark Darbyshire / Dr Helen Sykes - Hyfforddwyr Ymarfer Cyffredinol

Wroleg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP15C
Band 1B - 40%	Rota 1:5
Mae rowndiau ward dyddiol yn rhoi cyfleoedd rhagorol i weld derbyniadau wrolegol acíwt, cyflwyno achosion newydd i uwch gydweithwyr, adolygu sganiau, gofyn cwestiynau a dysgu am ymchwiliadau a thrin achosion wrolegol. Disgwylir i'r meddyg F2 gathetreiddio dynion a merched ar y ward a thrwy fynychu clinigau wroleg dan arweiniad CNS, mewnosod caniwla, perfformio meithriniadau gwaed a dysgu sut i ofalu am dderbyniadau brys o dan oruchwyliaeth. Mae meddygon F2 hefyd yn cael eu hannog i fynd i'r theatr, unedau llawdriniaeth ddydd a thrafodaethau'r Tîm Amlddisgyblaethol i brofi parhad gofal. Mae meddygon sylfaen yn cael addysg glinigol graidd rheolaidd am ganol dydd. *Oherwydd llwybrau Covid, efallai y bydd gofyniad parhaus i feddygon F1 sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili ymgymryd â dyletswyddau yn Ysbyty'r Tywysog Philip gan mai dyma'r safle dewisol yn Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn hefyd yn golygu y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd addysgol a hyfforddiant.*	

Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F2 Addysgu adrannol **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd Diwrnodau astudio F2 (1 fesul cyfnod cylchdro)
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Mr Mahmoud Shafii

Radioleg / Meddygaeth Gofal Dwys	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP19A
Dim Band	
Prif ddyletswyddau'r swydd Mae hwn yn lleoliad a rennir lle gall y meddyg F2 gael 2 fis yn gweithio ym maes gofal dwys a 2 fis arall yn gweithio ym maes radioleg, neu rota sy'n golygu fod y meddyg F2 yn treulio bob yn ail wythnos yn gweithio yn y ddau faes arbenigol (i'w gadarnhau). Bydd y dyletswyddau radioleg yn cynnwys mynychu argyfyngau meddygol ym maes radioleg, gan gyfrannu at y broses o archwilio ceisiadau sganio a mynychu sesiynau adrodd gyda radiolegwyr o dan hyfforddiant ac ymgynghorwyr. Mae'r dyletswyddau ym maes gofal dwys yn cynnwys bod yn bresennol wrth drosglwyddo cleifion yn y bore, asesu cleifion yn ddyddiol a rhoi cyflwyniadau i ymgynghorwyr yn ystod y dydd. Cwblhau'r tasgau sy'n codi yn ystod y rowndiau ward. Adolygu atgyfeiriadau newydd gyda chefnogaeth/goruchwyliaeth briodol. Mynychu galwadau MET, ochr yn ochr â chydweithiwr sydd wedi'u hyfforddi ym maes y llwybr anadlu. **Cyfleoedd dysgu** Ym maes gofal dwys, asesu a rheoli oedolion sy'n ddifrifol wael ac sydd angen gofal dibyniaeth fawr neu ofal dwys. Gweithdrefnau ymarferol, gan gynnwys mynediad rhydwelïol / canolog a rheoli'r llwybr anadlu. Dehongli nwyon gwaed rhydwelïol a chanlyniadau labordy unigolion sy'n ddifrifol wael. Dealltwriaeth o awyru mecanyddol, tawelyddu, defnyddio fasgywasgwr a hidlo arennol. Ym maes radioleg, bydd llawer o gyfleoedd dysgu drwy gymryd rhan yn y broses archwilio, mynychu'r REALM, dysgu o anghysondebau, gweithgarwch wythnosol, mynychu sesiynau adrodd a rhyngweithio â radiolegwyr dan hyfforddiant. **Patrwm gweithio arferol** 8-4 neu 9-5, diwrnod gwaith arferol ym maes gofal dwys a radioleg, yn y drefn honno, gyda rota sy'n cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer diwrnodau/nosweithiau hir yn ICU. Dim sifftiau ar alwad ym maes radioleg.	
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Anna Pisarczyk-Bathini

Seiciatreg Gyffredinol	**Uned Gofal Dwys Seiciatrig Cwm Seren, Hafan Derwen, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP19B
Dim Band	
Prif ddyletswyddau'r swydd: - Dyletswyddau clinigol.	

- Hanes Seiciatrig Cyffredinol a Hanes Seiciatrig gyda Ffocws: Asesu, drwy hanes ac archwiliadau cyflwr meddwl, cleifion ag ystod eang o gyflwyniadau salwch meddwl, achosion brys, acíwt a chronig, gan gynnwys Seicosis, Iselder, Para-hunanladdiad a Risg i Eraill. - Monitro cynnydd cleifion: monitro anghenion a thriniaeth iechyd corfforol a salwch cleifion. - Cymryd rhan mewn adolygiadau dyddiol o gleifion a phrif rowndiau ward wythnosol. - Asesu galluedd cleifion i gydsynio i gymryd meddyginiaeth. - Gweithio mewn tîm gyda nyrsys, meddygon, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, cydlynwyr gofal, fferyllwyr; i gynnwys Trosglwyddo. - Addysgu myfyrwyr meddygol. **Cyfleoedd dysgu:** - Presenoldeb mewn Grwpiau Balint - Rhaglen addysgu ôl-raddedig ar gyfer Seiciatreg a chyfleoedd addysgu arall a drefnir gan y Bwrdd Iechyd - Hyfforddiant efelychu, gan gynnwys senarios iechyd meddwl, briffio ac ôl-drafodaethau - Goruchwylio ar alwad **Patrwm gweithio arferol**: - 9am i 5pm	
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Wynne

Wroleg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP19C
Dim Band	
Mae rowndiau ward dyddiol yn rhoi cyfleoedd rhagorol i weld derbyniadau wrolegol acíwt, cyflwyno achosion newydd i uwch gydweithwyr, adolygu sganiau, gofyn cwestiynau a dysgu am ymchwiliadau a thrin achosion wrolegol. Disgwylir i'r meddyg F2 gathetreiddio dynion a merched ar y ward a thrwy fynychu clinigau Wroleg dan arweiniad CNS, mewnosod caniwla, perfformio meithriniadau gwaed a dysgu sut i ofalu am dderbyniadau brys o dan oruchwyliaeth. Mae meddygon F2 hefyd yn cael eu hannog i fynd i'r theatr, unedau llawdriniaeth ddydd a thrafodaethau'r Tîm Amlddisgyblaethol i brofi parhad gofal. Mae meddygon sylfaen yn cael addysg glinigol graidd rheolaidd am ganol dydd. *Oherwydd llwybrau Covid, efallai y bydd gofyniad parhaus i feddygon F1 sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili ymgymryd â dyletswyddau yn Ysbyty'r Tywysog Philip gan mai dyma'r safle dewisol yn Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn hefyd yn golygu y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd addysgol a hyfforddiant.*	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F2 Addysgu adrannol **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd Diwrnodau astudio F2 (1 fesul cyfnod cylchdro)
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Mr Mahmoud Shafii

Pediatreg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP016A
Band 2B - 50%	Rota 1:12
Mae'r swydd hon yn rhoi digon o gyfle i hyfforddeion ennill y cymwyseddau sy'n angenrheidiol i gwblhau FY2. Ar ben hynny, mae cyfle i gael profiad o reoli plant a phobl ifanc sy'n ddifrifol wael ac wedi'u hanafu, yn y lleoliad brys a'r lleoliad dewisol. Mae'r rota dyletswydd yn seiliedig ar ddiwrnodau arferol, diwrnodau hir a nosweithiau. Anogir hyfforddeion i fynychu llawer o weithgareddau clinigol eraill, gan gynnwys CAMHS, ENT Arbenigol, Offthalmoleg a chlinigau trydyddol. Darperir cefnogaeth glinigol ac addysgol gan y pediatregwyr ymgynghorol. Mae rota 1:12 ar gyfer yr uned asesu pediatrig, y ward cleifion mewnol, y ward ôl-enedigol, archwiliadau babanod, esgoriadau, SCBU ac OPD. Mae gennym 8 pediatregydd ymgynghorol, pob un â diddordeb arbenigol. Rydym ni'n darparu gofal newydd enedigol Lefel 1+ ac mae gennym 4 gwely newydd enedigol HDU. Rydym yn darparu gofal i blant a phobl ifanc 0-16 oed ac mae gennym wasanaethau POSCU (oncoleg bediatrig). Yn ogystal, mae gennym 3 gwely HDU Pediatrig. Mae 3 meddyg ymgynghorol yn gofalu am glinigau pediatreg cymunedol ar wahân. Rydym hefyd yn darparu profiad o ddiogelu plant. Rydym yn cynnal arholiadau clinigol MRCPCH/DCH yn rheolaidd, ac mae 2 ymgynghorydd yn arholwyr coleg. Mae'n werth nodi bod 1-2 o feddygon iau wedi llwyddo i gael hyfforddiant pediatrig rhagdro bob blwyddyn.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F2 ac 1 x diwrnod astudio F2 fesul cyfnod cylchdro Rowndiau Ward Mawr Pediatrig Cyflwyniad addysgu SHO/Meddygaeth seiliedig ar dystiolaeth Addysgu Fforwm Agored Wythnosol
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Swe Lynn

Uned Penderfyniadau Clinigol	**Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP016B
2B-50%	
Disgrifiad byr o'r dyletswyddau a'r cyfleoedd: Mynd ar Rowndiau Ward dyddiol gyda meddygon ymgynghorol yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol (CDU) Mynychu Rowndiau Bwrdd dyddiol y tîm amlddisgyblaethol Gofyn am yr holl ymchwiliadau gofynnol a gweithredu ar ganlyniadau'n brydlon Cyfeirio cleifion at arbenigeddau eraill yn unol â chyngor uwch swyddogion	
Cyfarfodydd Addysgol a chyfleoedd addysgu:	**Dyddiol** Addysgu anffurfiol yn ystod rowndiau ward o dan arweiniad meddygon ymgynghorol Cyflawni gweithdrefnau, e.e. LPs o dan oruchwyliaeth

	Wythnosol Addysgu FY2 Cyfarfod yr Adran Feddygol, gan gynnwys cyfarfodydd Morbidrwydd / Marwoldeb. Cymryd rhan weithredol drwy gyflwyno achosion ar ran y CDU **Misol** FY2 Diwrnodau Addysgu Cwricwlwm SDT
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Saba Kebede

Ymarfer Cyffredinol	**Meddygfa Llanfair, Llanymddyfri**
Rhaglenni:	FP016C
Band 1B 40%	Rota 1:7
• Ymgynghori â chleifion yn y feddygfa, ymweliadau cartref a dros y ffôn. • Gweithio gydag aelodau eraill o'r tîm, gan gynnwys Cofrestryddion Ymarfer Cyffredinol a Fferyllwyr o dan Hyfforddiant. • Ymgysylltu â chyfarfodydd yn y feddygfa (busnes, Tîm Amlddisgyblaethol, gofal lliniarol, amddiffyn plant ac ati). • Ymgysylltu â systemau rhagnodi, gan gynnwys presgripsiynau amlroddadwy a gweithio gyda Fferyllydd y Feddygfa. • Sesiwn Dysgu Hunangyfeiriedig Wythnosol, o dan arweiniad yr hyfforddai ac y cytunwyd arni gyda'r goruchwylydd addysg, gyda digon o gyfleusterau ar gyfer dysgu ar y safle ac ystafell hyfforddi bwrpasol gyda chymorth TG. • Gall gynnwys dysgu ar y safle, mynd i glinigau mewnol, neu glinigau ysbyty neu wasanaethau cymunedol. • Byddai'n fanteisiol petai ymgeiswyr sy'n gwneud cais yn berchen ar gar ac yn gallu ei yrru.	
Cyfarfodydd Addysgol:	**Dyddiol** Ymgynghori yn y feddygfa Ymweliadau Cartref/Adolygiad **Wythnosol** Addysgu FY2 Cyfarfod y Tîm Amlddisgyblaethol a Thrafodaethau Achos **Misol** Diwrnodau Addysgu'r Cwricwlwm FY2
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol:	Dr Sarah Richards

Wroleg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP020A
Band i'w gadarnhau	
Mae rowndiau ward dyddiol yn rhoi cyfleoedd rhagorol i weld derbyniadau wrolegol acíwt, cyflwyno achosion newydd i uwch gydweithwyr, adolygu sganiau, gofyn cwestiynau a dysgu am ymchwiliadau a thrin achosion wrolegol. Disgwylir i'r meddyg F2 gathetreiddio dynion a merched	

ar y ward a thrwy fynychu clinigau wroleg dan arweiniad CNS, mewnosod caniwla, perfformio meithriniadau gwaed a dysgu sut i ofalu am dderbyniadau brys o dan oruchwyliaeth. Mae meddygon F2 hefyd yn cael eu hannog i fynd i'r theatr, unedau llawdriniaeth ddydd a thrafodaethau'r Tîm Amlddisgyblaethol i brofi parhad gofal. Mae meddygon sylfaen yn cael addysg glinigol graidd rheolaidd am ganol dydd. *Oherwydd llwybrau Covid, efallai y bydd gofyniad parhaus i feddygon F1 sydd wedi'u lleoli yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili ymgymryd â dyletswyddau yn Ysbyty'r Tywysog Philip gan mai dyma'r safle dewisol yn Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn hefyd yn golygu y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd addysgol a hyfforddiant.*

Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F2 Addysgu adrannol **Misol** Cynhelir Cyfarfodydd Archwilio Ysbyty Cyfan yn rheolaidd Diwrnodau astudio F2 (1 fesul cyfnod cylchdro)
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Mr Mahmoud Shafii

Meddygaeth Gyffredinol / Cardioleg	**Ysbyty Cyffredinol Glangwili, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP020B
Band i'w gadarnhau	

Mae'r meddyg F2 yn rhan annatod o'r tîm Cardioleg yn Ysbyty Cyffredinol Glangwili, gan weithio gyda meddyg F1, Cymrawd Clinigol/IMT/ANP (2 swydd), SPR a meddyg arbenigol. Mae'r tîm yn cael ei arwain gan 4 cardiolegydd sy'n rhoi mewnbwn dyddiol i'r wardiau a'r CCU. Mae'r tîm yn gofalu am 6 chlaf yn CCU, 6 yn yr uned cardiaidd camu i lawr a 10 ar Ward Tywi (gyda chleifion allanol achlysurol). Mae'r meddygon iau yn cael cyfle i dreulio amser yn ennill profiad o ddehongli ECG, ecocardiograffeg sylfaenol, rheoli sylfaenol ac angiograffeg. Mae mwy o feddygon uwch wedi cael eu hyfforddi mewn rhai o'r technegau uwch ac anogir y meddygon iau i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r rhain.
Mae meddygon F2 yn cymryd rhan mewn rota 1:11 ar alwad, lle byddant ar alwad gyda naill ai meddyg F1 neu feddyg F2 a meddyg gradd canol. Mae meddyg 'cyfnos' yn helpu yn ystod y nos. Yn ogystal, bydd nyrs nos wrth law i ddarparu cymorth yn ystod y nos. Mae ymgynghorydd yn bresennol rhwng 8am ac 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac am lawer o'r penwythnos. Mae ymgynghorydd ar alwad o'i gartref bob amser, ac mae ar gael 24/7.
Mae'r meddygon F2 yn cael eu cefnogi i fynychu digwyddiadau addysgol yn yr adran ôl-raddedig ac yn cael cyngor a chefnogaeth gyrfaoedd gan yr ymgynghorwyr. Maent hefyd yn cael eu cefnogi i gyflawni gofynion y cwricwlwm.

Cyfarfodydd Addysgol:	**Wythnosol** Addysgu F2 Cyfarfod yr Adran Feddygol

	Diwrnodau astudio F2 (1 i bob cyfnod cylchdro)
Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Eiry Edmunds

Seiciatreg Gyffredinol	**Uned Gofal Dwys Seiciatrig Cwm Seren, Hafan Derwen, Caerfyrddin**
Rhaglenni:	FP020C
Band i'w gadarnhau	

Prif ddyletswyddau'r swydd:

- Dyletswyddau Clinigol.
- Hanes Seiciatrig Cyffredinol a Hanes Seiciatrig gyda Ffocws: Asesu, drwy hanes ac archwiliadau Cyflwr Meddwl, cleifion ag ystod eang o gyflwyniadau salwch meddwl, achosion brys, aciwt a chronig, gan gynnwys Seicosis, Iselder, Para-hunanladdiad a Risg i Eraill.
- Monitro cynnydd cleifion: monitro anghenion a thriniaeth Iechyd Corfforol a Salwch cleifion
- Cymryd rhan mewn adolygiadau dyddiol o gleifion a phrif rowndiau ward wythnosol
- Asesu galluedd i gydsynio i gymryd meddyginiaeth
- Gweithio mewn tîm gyda nyrsys, meddygon, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr, cydlynwyr gofal, fferyllwyr; gan gynnwys Trosglwyddo
- Addysgu myfyrwyr meddygol

Cyfleoedd dysgu:

- Presenoldeb mewn Grwpiau Balint
- Rhaglen addysgu ôl-raddedig ar gyfer Seiciatreg a chyfleoedd addysgu arall a drefnir gan y Bwrdd Iechyd
- Hyfforddiant efelychu, gan gynnwys senarios Iechyd Meddwl, briffio ac ôl-drafodaethau
- Goruchwylio ar alwad

Patrwm gweithio arferol:

- 9am i 5pm

Goruchwylwyr Addysgol a Chlinigol	Dr Wynne